

DYDD IAU, 9 GORFFENNAF 2026

AT: HOLL AELODAU'R PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS** A GYNHELIR YN **CHAMBER - CEREDIGION COUNTY COUNCIL, PENMORFA, ABERAERON, SA46 0PA** AM **10.30 YB AR DDYDD GWENER, 17EG GORFFENNAF 2026** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

Wendy Walters

PRIF WEITHREDWR

Swyddog Democrataidd:	Daniel Hall-Jones
Ffôn:	01267 224910
E-bost:	GwasanaethauDemocrataidd@sirgar.gov.uk

Wendy Walters Prif Weithredwr, *Chief Executive*,
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
County Hall, Carmarthen. SA31 1JP

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS 14 AELOD

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN - 3 AELOD

- | | | |
|----|------------|----------------|
| 1. | CYNGHORYDD | KEN HOWELL |
| 2. | CYNGHORYDD | KAREN DAVIES |
| 3. | CYNGHORYDD | MICHAEL THOMAS |

CYNGOR SIR CEREDIGION - 3 AELOD

- | | | |
|----|------------|-----------------|
| 1. | CYNGHORYDD | KEITH EVANS |
| 2. | CYNGHORYDD | WYN THOMAS |
| 3. | CYNGHORYDD | ELIZABETH EVANS |

CYNGOR SIR PENFRO - 3 AELOD

- | | | |
|----|------------|-----------------|
| 1. | CYNGHORYDD | JONATHAN GRIMES |
| 2. | CYNGHORYDD | DAVID SIMPSON |
| 3. | CYNGHORYDD | SIMON WRIGHT |

CYNGOR SIR POWYS - 3 AELOD

- | | | |
|----|------------|----------------|
| 1. | CYNGHORYDD | LIZ RIJNENBERG |
| 2. | CYNGHORYDD | LES GEORGE |
| 3. | CYNGHORYDD | WILLIAM POWELL |

AELODAU ANNIBYNNOL CYFETHOLEDIG - 2 AELOD

- | | |
|----|---------------------------|
| 1. | YR ATHRO IAN ROFFE |
| 2. | MRS HELEN MARGARET THOMAS |

A G E N D A

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL
2. DATGANIADAU O FUDDIANT
3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR YR 20FED MAI 2026 5 - 14
4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)
5. CWESTIYNAU AR RHYBUDD GAN AELODAU'R PANEL I'R COMISIYNYDD
 - 5.1 CWESTIWN GAN YR ATHRO IAN ROFFE

Os gwelwch yn dda, gall y Comisiynydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y diwygiad arfaethedig o lywodraethu'r heddlu, yn enwedig mewn perthynas â'r bwriad o ddiddymu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Paneli Heddlu a Throseddu.
 - 5.2 CWESTIWN GAN YR ATHRO IAN ROFFE

Beth yw dealltwriaeth y Comisiynydd o'r sefyllfa bresennol ar recriwtio swyddogion yn Nyfed-Powys ac a oes effaith costau byw ar swyddogion sy'n ceisio parhau â'u gwasanaeth yn ardal y Llu.
 - 5.3 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD LIZ RIJNENBERG

Mae pryderon yn parhau i gael eu codi ynghylch lefel yr adnoddau mewn NPPTs. Tra bod cymunedau'n cael eu cynghori bod staff newydd yn cael eu hyfforddi a swyddi gwag yn cael eu llenwi, a yw'r Comisiynydd yn fodlon bod y Prif Gwnstabl yn gweithredu gyda digon brys ar y mater hwn a bod y gallu i ddarparu gwasanaeth effeithiol sy'n ataliol ac yn ymatebol? A yw'r Comisiynydd yn gallu cadarnhau faint o swyddi gwag sy'n bodoli mewn NPPTs, beth yw'r lefelau salwch, a phryd y bydd y timau hyn yn cyrraedd capasiti llawn?

Er bod hyn wedi bod yn fater grym eang ers peth amser, mae pryderon penodol wedi'u codi mewn perthynas â model NPPT De Powys lle mae swyddi yn aros i gael eu llenwi, swyddogion yn cael eu rhannu rhwng Ystradgynlais ac Aberhonddu, ac mae potensial arferol ar gyfer cynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ystod misoedd yr haf.
6. ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU 17 - 40
7. ADRODDIAD CYNNYDD AR GYNLLUN YR HEDDLU A THROSEDDU BLAENORIAETH 1 41 - 48
8. PENDERFYNIADAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU 49 - 56
9. MONITRO PERFFORMIAD 57 - 108

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED POWYS

DYDD MERCHER, 20 MAI 2026

YN BRESENNOL: Yr Athro Ian Roffe (Aelod Annibynnol) (Cadeirydd)

Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin:

Cyng. K. Davies, K. Howell ac M. Thomas

Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion:

Cyng. E. Evans, K. Evans ac W. Thomas

Aelodau o Gyngor Sir Penfro:

Cyng. J. Grimes ac D. Simpson

Aelodau o Gyngor Sir Powys:

Cyng. W. Powell ac L. Rijnenberg

Aelod Annibynnol:

Mrs H.M. Thomas

Yn Bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

Mr D. Llywelyn – Y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mrs C. Morgans – Y Prif Weithredwr

Mrs N. Davies – Prif Swyddog Cyllid

Hefyd yn Bresennol:

R. Edgecombe – Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol

D. Hall-Jones – Swyddog Cynorthwyol Gwasanaethau Democrataidd

Y Siambr, Neuadd y Sir - Llandrindod, Powys - 10.34 YB - 12.29 YP

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB A MATERION PERSONOL

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Les George (Cyngor Sir Powys) a'r Cynghorydd Simon Wright (Cyngor Sir Penfro).

2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelod	Rhif Eitem Agenda.	Buddiant
Mrs H. Thomas	Yr Holl Eitemau.	Mae aelod o'r teulu yn gwasanaethu fel Swyddog Heddlu gyda Heddlu Dyfed-Powys ar hyn o bryd.
Cyng. W. Powell*	Eitem 7.	Cysylltiad proffesiynol â buddiolwyr 'Rhodd i Grŵp Noddfa i Ffoduriaid y Gelli, Aberhonddu a Thalgarth (HBTS4R) 2026', yn ôl adroddiad y Comisiynydd.

*Datganwyd buddiant wrth ystyried eitem 7 ar yr agenda.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR YR 10FED CHWEFROR 2026

PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Dyfed-Powys a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2026 yn gofnod cywir.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION (OS OES RHAI)

Ni chodwyd dim materion yn codi o gofnodion y cyfarfod.

5. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN AELODAU'R PANEL I'R COMISIYNYDD

Cyn ystyried y tri chwestiwn â rhybudd a gyflwynwyd, cododd y Panel nifer o gwestiynau thematig yn ymwneud â meysydd gan gynnwys Llywodraethu Plismona ac effaith etholiadau diweddar Llywodraeth Cymru, ac ymatebodd y Comisiynydd yn fanwl iddynt.

5.1. CWESTIWN GAN YR ATHRO IAN ROFFE

Yn dilyn y digwyddiad diweddar lle roedd heddlu yn Nyfed-Powys wedi defnyddio arf tanio, pa dystiolaeth benodol neu fesurau perfformiad y mae'r Comisiynydd yn eu defnyddio i sicrhau bod gan unedau ymateb arfog ddigon o staff ac adnoddau a'u bod wedi'u lleoli'n briodol i ymateb yn effeithiol i fygythiadau ac i ddiogelu'r cyhoedd?

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

- Cyfrifoldeb y Prif Gwnstabl yw penderfyniadau ynghylch adnoddau gweithredol.
- Ceir sicrwydd ynghylch y maes ffocws hwn trwy drefniadau llywodraethu mewnol yr Heddlu, yn bennaf drwy gyfarfodydd chwarterol Bwrdd y Gofyniad Plismona Strategol.
- Caiff Bwrdd y Gofyniad Plismona Strategol ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd.
- Mae'r Bwrdd yn monitro gallu, capasiti, gwydnwch a risg yr Heddlu mewn perthynas â Gofynion Plismona Strategol cenedlaethol a osodir gan y Swyddfa Gartref, sy'n cynnwys meysydd megis seiberfygythiadau. Mae arfau tanio a bygythiadau gan weithgarwch terfysgol yn elfen annatod o'r Gofyniad Plismona Strategol.
- Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gan yr Heddlu systemau, adnoddau a swyddogaethau gweithredol priodol ar waith i ddiogelu cymunedau a chynnal cysondeb â safonau plismona rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys y Gofynion Plismona Strategol.
- Ar hyn o bryd mae gan yr Uned Arfau Tanio ar y Cyd swyddi gwag ac mae gwariant goramser yn uwch na'r lefel a gyllidebwyd. Mae hwn yn faes pryder gweithredol a drafodwyd yn flaenorol gyda'r Prif Gwnstabl.
- Mae mesurau perfformiad sy'n ymwneud â digwyddiadau arfau tanio yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys digwyddiadau lle mae amseroedd ymateb yn fwy na'r targed cenedlaethol o 20 munud. Gall cyrraedd targedau o ran amserau ymateb fod yn arbennig o heriol mewn ardaloedd gwledig oherwydd lledaeniad daearyddol yr Heddlu a'r ffaith

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

nad yw'n ymarferol anfon swyddogion sydd wedi cael hyfforddiant arfau tanio i bob lleoliad.

- Caiff digwyddiadau sy'n methu â chyrraedd targedau amser ymateb eu hadolygu'n fisol o dan ganllawiau'r Gofyniad Plismona Strategol a Strwythurau Gorchymyn Lleol, er mwyn galluogi'r Uned Arfau Tanio ar y Cyd a'r Heddlu i fyfyrion ac addasu, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu ymateb yn effeithiol ac yn effeithlon i ddigwyddiadau o'r fath.
- Rhaid nodi hefyd bod gallu o ran arfau tanio yn cynnwys presenoldeb Swyddogion Taser sydd wedi'u hyfforddi'n lleol a Thrinwyr Cŵn, a allai fod yn rhan o ymateb cyfunol priodol i'r mathau hyn o ddigwyddiadau.

Yn ogystal â'r ymateb uchod, estynnodd y Comisiynydd, fel Cadeirydd y Bwrdd Platinwm, sy'n goruchwyllo lansiad disgwylidig yr Uned Arfau Tanio ar y Cyd fel cyfleuster hyfforddi erbyn diwedd y flwyddyn galendr, wahoddiad i'r Panel ymweld â'r cyfleuster maes o law.

5.2. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM POWELL

Yng ngoleuni'r pryderon parhaus ledled Cymru a Lloegr ynghylch radicaleiddio, sut mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn sicrhau bod y Prif Gwnstabl a chydweithwyr gweithredol yn atebol am hyfforddiant a gweithredu'r strategaeth Prevent, er mwyn hyrwyddo cydlyniant cymunedol a diogelwch y cyhoedd yn Nyfed-Powys? Yn benodol, pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd drwy Wasanaeth Addysg yr Heddlu mewn ysgolion a cholegau, i hyrwyddo gwerthoedd democratiaeth a goddefgarwch, gan roi sylw dyledus i ryddid mynegiant?

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddau

- Ceisiwyd sicrwydd ynghylch gweithgarwch y ddyletswydd Prevent yn ddiweddar gan y Prif Gwnstabl drwy'r Bwrdd Plismona, lle darparwyd gwybodaeth am y gwaith a wnaed yn fewnol ac mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol, gan gynnwys tueddiadau mewn atgyfeiriadau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc.
- Mae hyfforddiant Prevent yn cael ei ddarparu i bob swyddog dan hyfforddiant gan Dîm Plismona Gwrthderfysgaeth Cymru fel rhan o wasanaeth Cymru gyfan.
- Mae swyddogion hefyd yn derbyn hyfforddiant gorfodol drwy'r Adran Dysgu a Datblygu ar faterion sy'n ymwneud â radicaleiddio, eithafiaeth a phryderon diogelu cysylltiedig.
- Mae Rhaglen Ysgolion Heddlu Dyfed-Powys yn cyflwyno gwersi a chyflwyniadau mewn ysgolion ar bynciau gan gynnwys troseddau casineb, digwyddiadau casineb, radicaleiddio, eithafiaeth, terfysgaeth a gwrth-hiliaeth.
- Mae'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar adnabod arwyddion rhybudd, annog unigolion i godi llais yn ddiogel, deall mesurau diogelu cyfreithiol a chyfeirio at ffynonellau cymorth a chefnogaeth.
- Gwnaed buddsoddiad ychwanegol i ymestyn y gwaith ataliol ac addysgol hwn i golegau, gan gydnabod bod ymgysylltu wedi bod yn fwy sefydledig o fewn ysgolion yn y gorffennol, gyda Swyddogion Staff yr Heddlu

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

penodedig yn cael eu recriwtio i gyflwyno sesiynau ataliol ac addysgiadol yn uniongyrchol mewn colegau.

- Yn ogystal â'r 14 o Swyddogion Heddlu'r Ysgolion presennol, bellach bydd un rôl bwrpasol i Staff yr Heddlu ym mhob Sir yn ardal yr Heddlu i gefnogi'r gwaith hwn. Mae rôl ychwanegol a benodwyd yn fewnol wedi'i sefydlu i gefnogi hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma a gweithgarwch ymgysylltu cysylltiedig.
- Bydd y rolau newydd hyn yn cael eu cefnogi gan Dimau Plismona ac Atal Bro ehangach, sy'n derbyn Cwnstablaid ychwanegol drwy Adduned Plismona Bro Llywodraeth y DU.
- Bydd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu hefyd yn parhau i gefnogi gweithgarwch ymgysylltu, gan ganolbwyntio ar fod yn weladwy ac yn hygyrch i bobl ifanc.
- Nod cyffredinol y trefniadau hyn yw gwella ymyrraeth gynnar, cryfhau diogelu, a sicrhau cyfeirio ac atgyfeirio effeithiol i'r broses Prevent lle bo'n briodol.

5.3. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD WILLIAM POWELL

Yn dilyn cyflwyno'r terfyn cyflymder diodyn o 20mya mewn cymunedau ledled Cymru ym mis Medi 2023, y strategaeth orfodi 'gymesur' a fabwysiadwyd gan heddluoedd ledled Cymru wedi hynny, a graddfa'r drafodaeth gyhoeddus ar y mater ehangach dros y tair blynedd diwethaf, bu hinsawdd o ansicrwydd ymhlith ymgyrchwyr lleihau cyflymder, er gwaethaf data yn dangos gostyngiad mewn Damweiniau Traffig Ffyrdd ledled Cymru sy'n cynnwys marwolaethau ac anafiadau difrifol.

Yn erbyn y cefndir hwn, ac wrth i Lywodraeth newydd Cymru gael ei ffurfio, beth fydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau yn ei wneud nawr i annog y Prif Gwnstabl a chydweithwyr Plismona Ffyrdd i gefnogi'r gwaith o recriwtio, cadw a hyfforddi gwirfoddolwyr Gwyllo Cyflymder Cymunedol, i hyrwyddo diogelwch ar y ffyrdd a mesurau gorfodi cyflymder effeithiol ledled Dyfed-Powys?

Ymateb y Comisiynydd Heddlu a Throseddau

- Hoffai ddiolch i'r gwirfoddolwyr cymunedol am eu cyfraniad hirsefydlog at weithgareddau diogelwch ffyrdd.
- Mae'r maes ffocws wedi dod yn fwyfwy heriol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn dilyn newidiadau mewn deddfwriaeth, yn ogystal â thrafodaethau parhaus gyda Llywodraeth Cymru ynghylch ariannu partneriaeth GanBwyll a'i gweithgareddau.
- Mae pryderon wedi eu mynegi bod cyllid GanBwyll, yng nghanol chwyddiant a phwysau eraill, gan gynnwys y dull gorfodi graddol fesul cam i'r terfynau newydd o 20mya, sy'n lleihau incwm gorfodi, wedi herio gwydnwch gweithgareddau diogelwch ffyrdd ledled Cymru.
- Mae gorfodi terfynau cyflymder o 20mya bellach yn gwbl weithredol ledled Cymru, gyda hysbysiadau gorfodi yn cael eu rhoi i unigolion lle bo'n briodol.
- Mae Heddlu Dyfed-Powys a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cyflwyno 'Ymgyrch Ugain' ar y cyd, gyda'r nod o

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

addysgu gyrwyr ynghylch y newidiadau i'r terfyn cyflymder o 20mya a gwella cydymffurfiaeth. Mae gan yr ymgyrch gysylltiadau â mentrau eraill, gan gynnwys 'Eich Dyfodol, Eich Dewis', sy'n cael ei chyflwyno ar y cyd â phartneriaid mewn ysgolion ledled ardal yr heddlu.

- Defnyddir 'Stori Olivia' a mentrau addysgol tebyg i dynnu sylw at ganlyniadau cymryd risgiau wrth yrru a'r materion a all ddeillio o'r ymddygiadau hyn.
- Sefydlwyd Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd Llywodraeth Cymru yn ddiweddar, gyda chyfarfodydd blynyddol y bwrdd yn cael eu mynychu drwy gynrychiolaeth.
- Mae cynrychiolwyr o Swyddfa'r Comisiynydd yn parhau i gymryd rhan ym mhob un o'r pedair Partneriaeth Diogelwch Ffyrdd ar draws ardal Dyfed-Powys.
- Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol bellach wedi ymgorffori cynlluniau plismona sy'n canolbwyntio ar broblemau a datrys problemau sy'n ymwneud yn benodol â diogelwch ffyrdd.
- Bydd cyfarfod Bord Gron ynghylch Diogelwch Ffyrdd yn cael ei gynnal ym mis Mehefin 2026 i ddod â phartneriaid o bob rhan o ardal Dyfed-Powys at ei gilydd i rannu dysgu, syniadau ac adnoddau gyda'r nod o gryfhau gwaith ataliol o ran diogelwch ffyrdd. Bydd Cylch Cyllido Diogelwch Ffyrdd hefyd yn cael ei lansio i gefnogi grwpiau cymunedol a phartneriaid i gyflawni mentrau diogelwch ffyrdd lleol rhwng mis Mai 2026 a mis Mai 2028.
- Bwriad y Ford Gron yw cefnogi lansiad y Cylch Cyllido ac annog syniadau ataliol gan bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, y Gwasanaeth Tân, a sefydliadau cymunedol.
- Mae diogelwch ffyrdd yn parhau i fod yn bryder sylweddol a godir yn rheolaidd gan aelodau o'r cyhoedd a chynrychiolwyr cymunedol.
- Bydd gwaith ymgysylltu'n parhau gyda chydweithwyr y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, Prif Gwnstabiail a Gweinidog perthnasol Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phryderon hirsefydlog ynghylch cyllid GanBwyll a materion diogelwch ffyrdd ehangach.

6. ADRODDIAD CYNNYDD AR GYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU - BLAENORIAETH 3

[SYLWER: Gan fod Mrs H. Thomas wedi datgan buddiant yn gynharach yn y mater hwn, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei ystyried a phleidleisio].

Yn dilyn cais y Panel i'r Comisiynydd am adroddiadau yn amlinellu'r cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd, cafodd aelodau adroddiad cynnydd yn ymwneud â Blaenoriaeth 3 i'w adolygu.

Fel rhan o'r ffocws ar 'Gefnogi System Gyfiawnder Mwy Effeithiol', nododd y Comisiynydd, drwy'r buddsoddiadau sylweddol a wnaed yn y maes hwn, fod canlyniadau cadarnhaol wedi'u cofnodi. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys cyflawni perfformiad canlyniadau yn y chwarter uchaf ar gyfer troseddau trais rhywiol, a pherfformiad canlyniadau cyson yn y chwarter uchaf yn ôl dyddiad digwyddiad, drwy ymateb gwell i alwadau 101 a 999.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Dyweddodd y Comisiynydd hefyd wrth y Panel fod y Bwrdd Perfformiad Strategol yn parhau i fod yn fforwm ymarferol ar gyfer ceisio sicrwydd ar ran cymunedau ynghylch newidiadau ym mherfformiad yr Heddlu, gan helpu i sicrhau bod blaenoriaethu'r Cynllun Heddlu a Throseddau yn parhau i gael eu cyflawni drwy nodi achosion amrywiadau o'r fath a sut y gellir mynd i'r afael â nhw'n effeithiol.

Codwyd y cwestiynau neu bryderon canlynol gan y Panel:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch cywirdeb cofnodi troseddau, nododd y Comisiynydd ei fod wedi derbyn mwy o sicrwydd am welliannau mewn uniondeb data troseddau a samplu data o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae adolygiad cwmpasu eang ar y gweill ar hyd o bryd o fewn yr Heddlu i sicrhau perfformiad mwy cyson yn y maes hwn, ac mae'r Prif Gwnstabl hefyd yn ystyried gwahanol opsiynau i alluogi gwelliannau yn y dyfodol, megis cofnodi ar y pwynt cyswllt cyntaf a defnyddio technolegau, gan gynnwys awtomeiddio prosesau.
- Mewn ymateb i gais am ragor o fanylion am broblemau o ran perfformiad ymateb mewn ardaloedd gwledig a'r 20% o alwadau sy'n weddill lle nad yw targedau ymateb yn cael eu cyflawni, nododd y Comisiynydd fod hwn yn destun trafod cyson gyda'r Prif Gwnstabl, a bod gwybodaeth ar gael i'w hadolygu ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau, sy'n nodi'r rhesymau dros y problemau hyn. Dywedodd y Comisiynydd hefyd fod yr Heddlu ar hyn o bryd yn cynnal gwerthusiad o'i Fodel Adnoddau, y disgwylir iddo arwain at welliannau mewn amseroedd ymateb yn y dyfodol.
- Dywedodd y Comisiynydd y gellid darparu manylion a data ychwanegol mewn perthynas â 'Llais y Plentyn' a'r cynllun peilot 'Momentau Cyraeddadwy' i'r Panel, yn dilyn cwestiwn a godwyd mewn perthynas ag is-adran 'Plant' yr adroddiad.
- Cytunodd y Comisiynydd ar bwysigrwydd y cyhoedd ym mhob agwedd ar waith yr Heddlu ac ar yr angen i'w hannog i rannu gwybodaeth am droseddau difrifol a chyfundrefnol. Mae trefniadau ar waith i sicrhau sensitifrwydd o ran sut y caiff data ei rannu, ac i ddiogelu unigolion sy'n darparu gwybodaeth.
- Mewn ymateb i gwestiwn am y Strategaeth Troseddau Gwledig sydd newydd ei datblygu, cydnabu'r Comisiynydd bryderon ynghylch hyder y cyhoedd wrth reoli troseddau gwledig a dywedodd fod y strategaeth newydd, a ddatblygwyd mewn partneriaeth ag Undebau Ffermio, yn mynd i'r afael â nhw'n uniongyrchol. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar gefnogi cymunedau gwledig ac ar helpu i leihau risg troseddau, a bydd diweddariad yn cael ei roi i'r Panel yn y dyfodol ar gyflawniadau'r strategaeth.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

7. PENDERFYNIAU A WNAED GAN Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

[SYLWER:

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

- Gan fod Mrs H. Thomas wedi datgan buddiant yn gynharach yn y mater hwn, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei ystyried a phleidleisio.
- Wrth i'r adroddiad gael ei gyflwyno, datganodd y Cynghorydd W. Powell fuddiant yn yr eitem hon, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei ystyried a phleidleisio].

Bu'r Panel yn ystyried adroddiad ar benderfyniadau'r Comisiynydd a wnaed rhwng 17 Ionawr a 30 Ionawr 2026.

Mae Adran 28(6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn ei gwneud yn ofynnol bod yr holl benderfyniadau a wnaed a'r camau a gymerwyd gan y Comisiynydd yn cael eu hadolygu mewn aliniad â chyflawni ei swyddogaethau, a bod adroddiadau ac argymhellion yn ymwneud â'r penderfyniadau a'r camau gweithredu hynny yn cael eu llunio fel sy'n cael ei ystyried yn briodol gan y Panel i'r Comisiynydd.

Codwyd y cwestiynau neu bryderon canlynol gan y Panel:

- Er mwyn egluro ei rôl o ran awdurdodi gwariant ar feysydd megis 'Goleuadau LED y Ganolfan Rheoli Strategol', nododd y Comisiynydd, fel rhan o weithio yn ôl fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, fod lefelau gwariant penodol yn cael eu dirprwyo i unigolion. Ar gyfer unrhyw wariant dros y trothwy o £250,000, caiff y rhain eu cyflwyno i'r Comisiynydd i'w hystyried yn weithredol, rhyngddo a'r Prif Swyddog Ariannol, ar gyfer awdurdodi terfynol.
- Mewn ymateb i gais am ragor o fanylion ar y penderfyniad ynghylch y 'Cwprdd Mygdarthu', ailbwysleisiodd y Comisiynydd ei fod yn ddyfais a ddefnyddir i gefnogi'r broses gwella olion bysedd a chytunodd i ofyn am wybodaeth ychwanegol am ei ymarferoldeb i'w dosbarthu i'r Panel.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

8. PROTOCOL PLISMONA - ADRODDIAD PERFFORMIAD

[SYLWER: Gan fod Mrs H. Thomas wedi datgan buddiant yn gynharach yn y mater hwn, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei ystyried a phleidleisio].

Cafodd y Panel adroddiad perfformiad i'w adolygu mewn perthynas â'r Gorchymyn Protocol Plismona ar gyfer Chwarter 4 blwyddyn ariannol 2025/2026.

Ar gyfer y cyfnod dan sylw, roedd cyfanswm o dri cham gweithredu wedi newid perfformiad, sef o Wyrdd i Oren. Ni nodwyd unrhyw newidiadau pellach o ran perfformiad y camau gweithredu ar gyfer y chwarter. Ar gyfer y tri cham gweithredu a symudodd o Wyrdd i Oren, nodwyd bod mesurau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r amrywiadau.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

9. CYNLLUN BUSNES SWYDDFA'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU - ADRODDIAD CYNNYDD

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

[SYLWER: Gan fod Mrs H. Thomas wedi datgan buddiant yn gynharach yn y mater hwn, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei ystyried a phleidleisio].

Cafodd y Panel adroddiad cynnydd Cynllun Busnes Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer Chwarter 4 blwyddyn ariannol 2025/2026. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni gofynion y cynllun busnes mewn aliniad â blaenoriaethau Cynllun Heddlu a Throseddau y Comisiynydd.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, nodwyd bod sawl cam gweithredu yn dangos gwelliannau mewn perfformiad, gyda saith cam gweithredu yn symud o Oren i Wyrdd, gan gynnwys y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc. Roedd dau gam gweithredu wedi newid o Las i Oren i nodi cynnydd wrth gyflawni blaenoriaethau'r Comisiynydd, megis y Pwyllgor Dethol Diogelwch Ffyrdd. Cafodd dau gam gweithredu arall eu hisraddio o Oren i Las ar gyfer y cyfnod dan sylw.

Codwyd y cwestiynau neu bryderon canlynol gan y Panel:

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch sut mae risgiau newydd i'r Cynllun Busnes yn cael eu hystyried, nodwyd bod Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn cynnal cofrestr risg sy'n cael ei hadolygu'n fisol, gyda diweddariadau chwarterol yn cael eu darparu i'r Cyd-bwyllgor Archwilio i fonitro cynnydd, diweddaru risgiau a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau.
- Mewn perthynas â'r Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc newydd, dywedodd y Comisiynydd nad yw Awdurdodau Addysg wedi'u cynnwys yn benodol yn y trefniadau newydd, er bod sefydliadau Gwasanaethau Ieuentid yn rhan annatod o'r gwaith yn y maes hwn.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

10. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I GYNLLUN BUSNES OPCC

[SYLWER: Gan fod Mrs H. Thomas wedi datgan buddiant yn gynharach yn y mater hwn, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei ystyried a phleidleisio].

Cafodd y Panel adroddiad manwl yn amlinellu newidiadau arfaethedig i Gynllun Busnes Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer y cyfnod sydd i ddod. Mae'r adroddiad yn egluro'r newidiadau penodol i'r Cynllun Busnes a sut y bydd y Swyddfa yn rhoi'r cynllun ar waith.

Yng nghanol yr ansicrwydd ynghylch newidiadau arfaethedig Llywodraeth y DU i Drefniadau Llywodraethu'r Heddlu, ac yn dilyn adolygiadau parhaus o'r Cynllun o fewn Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau, nodwyd mai bwriad y diwygiadau arfaethedig yw ystyried goblygiadau posibl y newidiadau hyn. Nod y diwygiadau yw sicrhau cynnydd parhaus wrth gyflawni blaenoriaethau'r Comisiynydd, gan hefyd wneud y defnydd gorau o gapasiti ac adnoddau i reoli'r newidiadau arfaethedig yn effeithiol.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

11. ADRODDIAD YR IS-GRŴP PERFFORMIAD 2025/2026

[SYLWER: Gan fod Mrs H. Thomas wedi datgan buddiant yn gynharach yn y mater hwn, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei ystyried a phleidleisio].

Yn unol â'i flaenoriaethau ar gyfer cyfnod 2025/2026, cafodd y Panel adroddiad i'w ystyried gan yr Is-grŵp Perfformiad sy'n adolygu ac yn craffu ar drefniadau llywodraethu sydd ar waith gan y Comisiynydd i sicrhau atebolrwydd y Prif Gwnstabl.

Fel rhan o'i ystyriaeth, nodwyd, yn dilyn adolygiad helaeth o wybodaeth am weithredu'r trefniadau a sylwadau Aelodau'r Panel ar y rhai sydd ar waith, fod yr Is-grŵp wedi cael sicrwydd bod y trefniadau'n berthnasol ac yn effeithiol.

Gan gydnabod canfyddiadau'r Panel, derbyniodd y Comisiynydd argymhellion yr Is-grŵp yn ffurfiol – yn enwedig o ran sut mae presenoldeb aelodau'r Panel mewn cyfarfodydd fel y Bwrdd Strategol yn rhoi cipolwg hanfodol ar y berthynas lywodraethu rhwng Swyddfa'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl, ac y dylid cynnal hyn.

PENDERFYNWYD nodi adroddiad yr Is-Grŵp Perfformiad.

12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL

[SYLWER: Gan fod Mrs H. Thomas wedi datgan buddiant yn gynharach yn y mater hwn, arhosodd yn y cyfarfod wrth i'r Panel ei ystyried a phleidleisio].

Ystyriodd y Panel Adroddiad Blynyddol ar gyfer Panel Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys a gyhoeddwyd yn unol ag amodau'r grant oedd yn berthnasol i'r cyllid a dderbyniwyd gan y Swyddfa Gartref. Mae'r adroddiad yn amlinellu gweithgareddau'r Panel yn ystod 2025/2026 a'i flaenoriaethau ar gyfer 2026/2027.

PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Blynyddol.

CADEIRYDD

DYDDIAD

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

17/07/2026

Pwnc:

ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU

Pwrpas:

Adolygu Adroddiad Blynyddol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

Argymhellion / Penderfyniadau Allweddol sydd eu Hangen:

Adolygu'r Adroddiad Blynyddol a gwneud y cyfryw argymhellion sy'n cael eu hystyried yn briodol.

Rhesymau:

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn rhoi dyletswydd statudol ar y Panel i gyflawni'r swyddogaeth hon.

Angen i'r Cabinet Wneud Penderfyniad Amherthnasol

Angen i'r Cyngor Wneud Penderfyniad Amherthnasol

AELOD CABINET SY'N GYFRIFOL AM Y PORTFFOLIO: Amherthnasol

Awdur yr Adroddiad:

Robert Edgecombe

Swyddi:

Swyddog Cymorth y Panel

Manylion Cyswllt:

Ffôn: 01267 224018

E-bost: rjedgeco@sirgar.gov.uk

EXECUTIVE SUMMARY
DYFED-POWYS POLICE AND CRIME PANEL
17/07/2026

ANNUAL REPORT OF THE POLICE AND CRIME COMMISSIONER

Section 12 of the Police Reform and Social Responsibility Act 2011 requires the Panel to receive and review the annual report of the Police and Crime Commissioner each year.

The Commissioner's annual report for 2025-2026 is attached for consideration by the Panel.

DETAILED REPORT ATTACHED?

YES

Section 100D Local Government Act, 1972 – Access to Information

List of Background Papers Used in Preparation of This Report:

Title of Document	File Ref No.	Location Papers Available for Public Inspection
Host Authority Files	PACP-115	County Hall, Carmarthen

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol



Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Adroddiad Blynyddol 2025-26



Mae'r ddogfen hon hefyd
ar gael yn Saesneg.
*This document is also
available in English.*



**Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys**
Police and Crime Commissioner

Cysylltwch â'r Comisiynydd

☎ 01267 226440

✉ opcc@dyfed-powys.police.uk

🏠 Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Blwch SP 99
Llangynnwr
Caerfyrddin
SA31 2PF

💻 www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy



@DPOPCC

Cynnwys

Rhagair	2
Crynodeb o'r flwyddyn	4
Fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025–2029	6
Blaenoriaeth 1: Cefnogi Dioddefwyr	7
Blaenoriaeth 2: Cefnogi Cymunedau Diogel trwy Atal Niwed	10
Blaenoriaeth 3: Cefnogi System cyfiawnder troseddol mwy effeithiol	14
Blwyddyn mewn rhifau	16
Comisiynu gwasanaethau a gwaith partneriaeth	17
Ymgysylltu	19
Atebolrwydd a chraffu	24
Goruchwylio'r Gofyniad Plismona Strategol	28
Adnoddau a Cyllid	30
Llywodraethu	31
Edrych ymlaen	32



**Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys**
Police and Crime Commissioner

Rhagair gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf wrth ddarparu gwasanaethau plismona a throseddu effeithiol ac atebol ar gyfer cymunedau ardal Dyfed-Powys. Mae'n adlewyrchu blwyddyn gref o weithio mewn partneriaeth, buddsoddiad parhaus mewn atal, a ffocws clir ar gefnogi dioddefwyr ac adeiladu cymunedau mwy diogel.

Drwy gydol 2025–26, rydym wedi cyflawni gweithgaredd ystyrion ar draws ein blaenoriaethau. Rydym wedi cryfhau cefnogaeth i ddioddefwyr trwy fentrau fel gwasanaethau eiriolaeth arbenigol, hyfforddiant sy'n seiliedig ar drawma, ac ymyriadau ymarferol i gefnogi'r rhai sydd mewn argyfwng. Rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn ymyrraeth gynnar ac atal, gan gynnwys rhaglenni ymgysylltu ieuencid, plismona mewn ysgolion, a dulliau dargyfeiriol sy'n mynd i'r afael â gwraidd achosion troseddu.

Mae ein gwaith gyda phartneriaid wedi parhau i fod yn ganolog i bopeth a wnawn. O lansio gwasanaethau newydd a chefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol, i sicrhau cyllid ar gyfer mentrau diogelwch cymunedol a chryfhau cydweithio ar draws plismona, iechyd a'r system cyfiawnder troseddol ehangach, mae'r adroddiad hwn yn dangos gwerth cydweithio i sicrhau canlyniadau gwell i'n cymunedau.

Rydym hefyd wedi parhau i sicrhau bod lleisiau ein cymunedau yn llunio ein gwaith. Drwy weithgarwch ymgysylltu, ymgynghoriadau cyhoeddus a mentrau newydd fel paneli craffu cymunedol ac arolygon ieuencid, rydym yn cryfhau tryloywder, atebolrwydd ac ymddiriedaeth mewn plismona ar draws ardal Dyfed-Powys.

Mae'r flwyddyn hon hefyd wedi'i nodi gan datblygiadau sylweddol ar lefel genedlaethol. Yn mis Ionawr 2026, cyhoeddodd Llywodraeth y

DU Bapur Gwyn yn cynnig y moderneiddio mwyaf sylweddol o blismona mewn bron i 200 mlynedd. Nod y cynigion yw creu mwy o gysondeb ar draws Cymru a Lloegr ac maent yn cynnwys symud i ffwrdd o Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu tuag at Fyrdau Plismona a Throseddu sy'n cynnwys cynrychiolwyr llywodraeth leol.

Ar hyn o bryd, mae'r goblygiadau i Gymru yn parhau i fod yn aneglur. Er bod plismona yn parhau i fod yn gyfrifoldeb Llywodraeth y DU, mae gwasanaethau cyhoeddus eraill wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, gan greu cyd-destun unigryw y mae'n rhaid ei ystyried yn ofalus. Drwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi gweithio'n agos gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill Cymru, Llywodraeth Cymru, a phartneriaid ar draws plismona a chyfiawnder troseddol i helpu i lunio trefniadau llywodraethu yn y dyfodol sy'n adlewyrchu anghenion Cymru.

Byddaf yn parhau i weithio ar eich rhan i ddadlau dros ffocws parhaus ar atal a gweithio mewn partneriaeth, dulliau sy'n hanfodol i sut rydym yn darparu plismona a diogelwch cymunedol yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod unrhyw fodel yn y dyfodol yn adeiladu ar y cryfderau hyn ac yn sicrhau bod cymunedau ardal Dyfed-Powys yn parhau i dderbyn y gwasanaethau gorau posibl.

Fel Comisiynydd, mae fy ymrwymiad yn parhau'n glir: darparu cymunedau mwy diogel, cefnogi dioddefwyr, a sicrhau gwasanaeth plismona effeithiol ac atebol. Byddaf yn parhau i hyrwyddo eich llais a gweithio i sicrhau dyfodol sy'n amddiffyn yr hyn sydd bwysicaf i'r bobl rydyn ni'n eu gwasanaethu, nawr a thu hwnt i'm hamser yn y rôl hon.

Dafydd Llywel

Dafydd Llywel
Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys





Ebrill 2025

- Ym mis Ebrill, cynheliais ddiwrnod agored i bobl ifanc ym mhencadlys yr heddlu, gan roi cipolwg rhyngweithiol i bobl ifanc ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys ar yrfaeodd plismona.
- Bûm hefyd yn cefnogi Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Stelcio, gan ganolbwyntio ar y thema 'Ymateb iechyd i adnabod stelcio'. Tynnodd yr wythnos sylw at bwysigrwydd adnabod arwyddion o stelcio, a sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth cywir.



Mai 2025

- Fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth o Dementia, bûm yn cefnogi cyflwyniad o gynllun digidol Protocol Herbert, menter am ddim a gynlluniwyd i helpu i warchod pobl sy'n byw gyda dementia sydd mewn perygl o fynd ar goll.
- Fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Cyflyll, roeddwn i'n falch o gefnogi sesiynau a gyflwynwyd gan Sefydliad Clwb Pêl-droed Dinas Abertawe trwy'r fenter Premier League Kicks.



Hydref 2025

- Yn ystod Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, a fu'n canolbwyntio ar droseddau casineb yn erbyn anabledd, cynheliais weminar a ddaeth ag arbenigwyr ynghyd o bob cwr o ardal Heddlu Dyfed-Powys i archwilio'r materion a'r rhwystrau sy'n ymwneud â throseddau casineb.
- Roeddwn wrth fy modd yn cyhoeddi bod Ifan Charles wedi ei benodi'n Brif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, yn dilyn proses benodi gadarn a gwrandawriad cadarnhau gan Banel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys.



Tachwedd 2025

- Lansiais ymgynghoriad cyhoeddus ar gyllideb plismona 2026–2027 i glywed a chasglu eich barn ar flaenoriaethau ariannu lleol.
- Buom yn dathlu llwyddiant sylweddol yng Ngwobrau Cymunedau Mwy Diogel 2025, gyda mentrau a ariannwyd, sefydliadau a gefnogwyd, ac un o'm llysgenhadon ieuenctid i gyd yn cael eu cydnabod am eu cyfraniad rhagorol i'r gymuned.



Mehefin 2025

- Ym mis Mehefin, croesewais wirfoddolwyr ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys i'r pencadlys ar gyfer digwyddiad arbennig 'Dathlu Ein Gwirfoddolwyr – Bore gyda'r Comisiynydd', a gynhaliwyd fel rhan o weithgareddau Wythnos y Gwirfoddolwyr.
- Dyfarnwyd statws Cynghreiriad Aur i'n Pennaeth Strategaeth a Pholisi ac un o'm Ymgynghorwyr Polisi gan Rwydwaith Heddlu LHDTIC+ Cymru yng nghyfarfod cyffredinol blyneddol Rhwydwaith Heddlu LHDTIC+ Cymru, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn ardal Heddlu Dyfed-Powys.



Gorffennaf 2025

- Ym mis Gorffennaf, lansiais adolygiad Panel Craffu Cymunedol, a fu'n canolbwyntio ar wasanaethau ymyrraeth, atal ac ymgysylltu ar gyfer oedolion ifanc; menter newydd er mwyn cryfhau craffu cyhoeddus, tryloywder ac atebolrwydd mewn plismona.
- Aeth cynrychiolwyr o'm swyddfa i'r Sioe Frenhinol Cymru i ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth o'n gwaith ni, a hyrwyddo cyfleoedd i gymryd rhan yn ein cynlluniau gwirfoddoli.



Rhagfyr 2025

- Ym mis Rhagfyr, ymwelais ag Ysgol Pen Rhos i lansio rhaglen Heddlu Bach gyntaf erioed Gorrlewin Cymru, gan alluogi disgyblion Blwyddyn 5 a Blwyddyn 6 i gymryd rhan mewn gweithgareddau hwyliog sy'n eu cyflwyno i blismona lleol a diogelwch y gymuned.
- Lansiais fenter newydd i gynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig, gyda 30 o fagiau brys wedi eu danfon i'w defnyddio ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.



Ionawr 2026

- Ym mis Ionawr, ar ôl proses o graffu helaeth dros sawl mis, cefnogodd Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn unfrydol fy nghynnig praesept ar gyfer 2026–2027.
- Treuliais ddiwrnod yn Sir Benfro lle bûm yn ymweld â Pobl yn Gyntaf Sir Benfro, fel rhan o'm gweithgaredd Diwrnod Ymgysylltu â'r Gymuned.



Awst 2025

- Ym mis Awst, bu fy nhim a minnau yn cyfarfod ag aelodau o'r cyhoedd yn Sioe Sir Benfro, lle gwahoddwyd ymwelwyr i rannu eu barn ar blismona a throseddau gwledig. Lansiais fy arolwg 'Pobl Ifanc – Llywio Ein Gwasanaethau', gan ofyn i bobl ifanc rannu eu barn ar ddiogelwch y gymuned er mwyn helpu i ddylanwadu ar ddyfodol gwasanaethau lleol.



Medi 2025

- Lansiodd platform negesu cymunedol newydd, Cyswllt Dyfed-Powys, yn swyddogol y mis hwn. Mae'r system hon yn caniatáu i breswylwyr gofrestru ar gyfer rhybuddion, ymateb i arolygon, a chael y newyddion diweddaraf yn uniongyrchol gan fy swyddfa a Heddlu Dyfed-Powys.
- Ymgwymerodd aelodau o'm swyddfa â hyfforddiant arbenigol a ddarparwyd gan Cymorth i Fenywod, gyda'r nod o ddeall dulliau sy'n ystyriol o drawma wrth weithio gyda goroeswyr cam-drin a thrais.



Chwefror 2026

- Ym mis Chwefror, yn dilyn gwahoddiad, traddodais ddarlith i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth, lle trafodwyd plismona, cyfreithlondeb, a dyfodol plismona yng nghyd-destun Cymru.
- Euthum i gyfarfod cyntaf y Panel Craffu Cymunedol, sy'n rhoi cyfle i aelodau'r cyhoedd adolygu cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd yn annibynnol.



Mawrth 2026

- Ym mis Mawrth, cynheliais a chroesewais westeion i'm degfed Cynhadledd Gŵyl Ddewi er mwyn archwilio sut y mae technoleg ddatblygol a bygythiadau seiber yn dylanwadu ar blismona modern.
- Bûm i a'r Prif Gwnstabl, Ifan Charles, yn ymweld â'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig (EYST) i ddysgu mwya am waith y sefydliad yn cefnogi cymunedau amrywiol ledled Cymru.

Fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025–2029

Mae fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025–2029 yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer plismona yn ardal Heddlu Dyfed-Powys dros y pedair blynedd nesaf. Mae'r cynllun hwn yn adlewyrchu ein blaenoriaethau cyffredin a'n hymrwymiad i wneud ein cymunedau yn fwy diogel.

Wrth wraidd y cynllun mae tair blaenoriaeth allweddol:

- **Cefnogi dioddefwyr ac atal dioddefaint**
– Sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt gan drosedd yn cael y cymorth cywir, a'n bod yn cymryd camau rhagweithiol i leihau dioddefaint.
- **Cefnogi cymunedau diogel drwy atal niwed**
– Mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu, a gweithio gyda phartneriaid i gadw ein cymunedau yn ddiogel.
- **Cefnogi system gyfiawnder fwy effeithiol**
– Sicrhau system deg ac effeithlon sy'n darparu cyfiawnder i ddioddefwyr a throseddwr.



Darganfod
mwy:



Cynnydd yn erbyn blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throseddu

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cyflawniad yn ystod cyfnod o bontio rhwng fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025-2029. Drwy gydol y flwyddyn, parhaodd y gwaith i ganolbwyntio ar ddiogelu dioddefwyr, atal niwed, a chefnogi system cyfiawnder troseddol effeithiol.

Cafodd y blaenoriaethau hyn eu llunio drwy ymgysylltu â phreswylwyr, partneriaid a rhanddeiliaid, ac maent wedi darparu sylfaen gref ar gyfer gyrru gwelliannau a diogelwch y gymuned. Mae'r gwerthoedd a'r uchelgeisiau a oedd yn sail i'm cynllun blaenorol yn parhau i fod yn ganolog i'r blaenoriaethau a nodwyd yn fy Nghynllun ar gyfer 2025–2029, er bod y blaenoriaethau hyn yn parhau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025–2029.

Blaenoriaeth 1: Cefnogi Dioddefwyr



Mae cefnogi dioddefwyr troseddau yn parhau i fod yn flaenoriaeth hanfodol drwy gydol fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025–2029. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae fy swyddfa a minnau wedi bod yn gweithio i wella mynediad i wasanaethau, codi ymwybyddiaeth o anghenion dioddefwyr, a sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt gan drosedd yn cael eu trin ag urddas, gofal a pharch. Drwy brosiectau a rhaglenni hyfforddi newydd, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wneud gwahaniaeth i fywydau dioddefwyr.

Gwasanaeth eiriolaeth stelcio annibynnol

Cyflwynwyd gwasanaeth peilot, sydd wedi ei ddarparu gan Paladin ers mis Medi 2024, i fynd i'r afael â bwlch mewn cymorth arbenigol i ddioddefwyr stelcio risg uchel, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae'r gwasanaeth yn darparu eiriolwyr achosion stelcio annibynnol (ISACs), llwybrau atgyfeirio, ac ymgysylltiad amlasiantaeth er mwyn gwella cymorth i ddioddefwyr.



Dangosodd y cynllun peilot ganlyniadau cryf, a chafodd ei ymestyn am ail flwyddyn yn dilyn adborth cadarnhaol. Cynyddodd nifer yr atgyfeiriadau yn sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd, gan adlewyrchu ymwybyddiaeth gynyddol o'r gwasanaeth a'r galw am gymorth arbenigol oherwydd stelcio.

Disgrifiodd adborth gan Heddlu Dyfed-Powys y gwasanaeth fel un 'amhrisiadwy', wrth gefnogi diogelwch dioddefwyr a chryfhau gwaith amlasiantaeth. Mae canfyddiadau cadarnhaol o'r gwerthusiad wedi llywio comisiynu gwasanaeth tymor hwy drwy broses dendro ffurfiol.



Bagiau argyfwng i gynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig

Yn sgil menter newydd i gynorthwyo dioddefwyr cam-drin domestig, mae 30 o fagiau brys wedi cael eu danfon i'w defnyddio ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Yn llawn eitemau hanfodol fel nwyddau ymolchi, byrbrydau annarfodus, a chyflenwadau brys, mae'r bagiau wedi eu cynllunio i gynnig cymorth uniongyrchol ac ymarferol i unigolion a theuluoedd mewn argyfwng.

Mae'r cynllun yn ategu fy ymrwymiad ehangach i wella cymorth i ddioddefwyr, ac fe'i cyflwynir mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys a Dal i Godi, sef y



gwasanaeth gan Ymgynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a gomisiynir. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth arbenigol i'r rhai sydd mewn risg uchel o niwed, gan gynnig cynllunio diogelwch a chefnogaeth drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

Mae hon yn fenter anhygoel rwy'n falch o'i chefnogi. Mae'n darparu cymorth ystyrion i'r rhai sy'n ymdrin â thrawma, ac yn adlewyrchu ein gwaith parhaus i roi dioddefwyr yn gyntaf.



Gweithdai ieuenctid Rhuban Gwyn

Fel rhan o Wythnos y Rhuban Gwyn, llofnodais yr Addewid Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a Gyflawnir gan yr Heddlu (VAWDASV), gan ailddatgan ein hymrwymiad i atebolrwydd, tryloywder ac arfer sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. Mynychodd cydweithwyr o'm swyddfa hefyd ddigwyddiad Rhuban Gwyn dan arweiniad pobl ifanc a ddaeth â disgyblion o ysgolion lleol ynghyd ar gyfer diwrnod o weithdai yn canolbwyntio ar barch a mynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched.

Cyflwynwyd y digwyddiad mewn partneriaeth â sefydliadau yn cynnwys Yo Bro, Our Voice Our Journey, By His Path, His Journey Project, a You Should Know Project, a arweiniodd sesiynau rhyngweithiol wedi eu cynllunio i helpu pobl ifanc i adnabod ymddygiadau niweidiol ac adeiladu perthnasoedd cadarnhaol a pharchus.

Mae ymgyrch Yo Bro yn chwarae rhan bwysig, gan weithio gyda bechgyn a dynion ifanc ar draws ein cymunedau. Mae'r ffocws ar wrywod cadarnhaol a herio agweddau niweidiol yn cyd-fynd yn agos â'm blaenoriaethau i o ran plismona a throseddu. Rwy'n falch o gefnogi prosiectau a all rymuso pobl ifanc, a helpu i atal trais cyn iddo ddigwydd.



Hyfforddiant ymarfer sy'n ystyriol o drawma gyda Cymorth i Ferched Cymru

Cymerodd 10 aelod o'm tim ran mewn hyfforddiant arbenigol a ddarparwyd gan Cymorth i Ferched Cymru, gyda'r nod o ddeall a gweithredu dulliau sy'n ystyriol o drawma wrth weithio gyda goroeswyr cam-drin a thrais.

Bu'r sesiwn yn archwilio effaith hirdymor trawma ar ddioddefwyr a goroeswyr, gan gynnwys sut y gall systemau a gwasanaethau naill ai gynorthwyo adferiad, neu aildrawmateiddio yn anfwriadol. Bu'r hyfforddiant yn annog staff i fyfyrio ar iaith ac ymddygiad, gan ystyried sut y gall ein polisïau a'n rhyngweithiadau bob dydd fod yn fwy sensitif a grymusol i'r rhai sydd â phrofiad personol.

Ategwyd yr hyfforddiant hwn gan gyfleoedd dysgu ychwanegol trwy hyfforddiant achrededig gyda



Gwasanaeth cymorth i deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid mewn gwrthdrawiadau traffig ffyrdd

Fe wnes i a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, Emma Wools, ariannu lansiad gwasanaeth cymorth arbenigol a ddarperir gan Cymorth i Ddioddefwyr i deuluoedd sydd wedi colli anwyliaid mewn gwrthdrawiadau traffig ffyrdd ledled Cymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth un-i-un wedi ei bersonoli, gan arwain teuluoedd trwy'r heriau emosiynol, ymarferol a chyfreithiol sy'n dilyn gwrthdrawiad angheuol.

Bydd pob teulu sy'n cael ei atgyfeirio at y gwasanaeth yn cael cynnig cymorth personol, un-i-un gan weithiwr achos profiadol sydd wedi ei hyfforddi'n bwrpasol. Bydd y gweithiwr achos penodol hwn yn helpu teuluoedd i lywio'r heriau emosiynol, ymarferol a chyfreithiol sy'n aml yn dilyn gwrthdrawiad angheuol, o ddarparu clust i wrando ac arweiniad ar y broses cyfiawnder troseddol, i gysylltu teuluoedd â chymorth arbenigol ychwanegol. Mae ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gellir cael mynediad ato drwy atgyfeiriad neu hunanatgyfeiriad.

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth cyfrinachol am ddim i unrhyw un sydd wedi colli rhywun oherwydd gwrthdrawiad traffig ffordd, ac y mae wedi ei ariannu tan 31 Mawrth 2028.



Gwasanaethau Threshold Domestic Abuse Services, gan gynnwys deall unigolion yr effeithir arnynt gan reolaeth orfodol, a deall diogelu ochr yn ochr â sesiwn hyfforddi ymarfer ystyriol a hwylusir gan Hyb ACE Cymru. Mae hyfforddiant parhaus a datblygiad proffesiynol parhaus yn parhau i fod yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gan fy staff y wybodaeth a'r hyder y mae eu hangen arnynt i ddarparu i safon uchel a gwasanaethau effeithiol.

Llysoedd sy'n Canolbwyntio ar Blant

Mae gwasanaeth newydd i gefnogi dioddefwyr a phlant sy'n rhan o achosion llys teulu wedi parhau i wneud gwahaniaeth sylweddol ers ei lansiad ar 1 Mawrth 2025. Cyflwynwyd y gwasanaeth mewn ymateb i adborth a dderbyniwyd gan fy swyddfa a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB), a oedd yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o ddioddefwyr yn cael eu hail-drawmateiddio gan natur wrthwynebus proses y llys teulu.

Wedi'i gyflwyno ledled De, Canolbarth a Gorllewin Cymru gan Safer Merthyr Tudful a Thrive Women's Aid, mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth arbenigol i helpu dioddefwyr i lywio achosion llys teulu a sicrhau bod eu profiadau'n cael eu deall yn well.

Yn ystod blwyddyn ariannol 25/26, derbyniwyd 263 o atgyfeiriadau, cynnydd o'r 123 o atgyfeiriadau a gofnodwyd rhwng lansiad y gwasanaeth a diwedd mis Medi 2025. Llwyddodd y gwasanaeth i gysylltu â 96% o'r rhai a atgyfeiriwyd, gyda 84% o'r unigolion y cysylltwyd â nhw yn cydsynio i asesiad arbenigol ac adroddiad gael ei baratoi ar gyfer y llys. Mae'r ffigurau hyn yn dangos y galw cynyddol am y gwasanaeth a'r gwerth y mae'n ei ddarparu wrth gefnogi dioddefwyr trwy'r hyn a all fod yn broses heriol iawn.

Blaenoriaeth 2: Cefnogi Cymunedau Diogel trwy Atal Niwed

Mae atal niwed i unigolion a chymunedau, a achosir gan droseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a bregusrwydd, wrth wraidd fy Nghynllun Heddlu a Throseddau. Yn ystod 2025–26, rwyf wedi cydweithio â phartneriaid ledled Cymru a'r DU i gefnogi ymyrryd cynnar, lleihau risg, ac atal a mynd i'r afael â throseddau.



Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel 2025

Roedd yn foment o falchder gweld ardal Heddlu Dyfed-Powys yn cael ei gydnabod yng Ngwobrau Cymunedau Mwy Diogel 2025, gyda chyflawniadau yn cael eu cydnabod ar draws sawl categori. Cafodd prosiectau a ariannwyd drwy fy swyddfa, ynghyd ag un o'm llysgenhadon ieuencid, eu cydnabod am eu cyfraniad rhagorol at ddiogelu, gweithio arloesol ac ymyrryd cynnar, gan ennill dwy wobwr yn y categori cenedlaethol, ac un gydnabyddiaeth, a gafodd ganmoliaeth uchel, ochr yn ochr â buddugoliaethau ychwanegol i Heddlu Dyfed-Powys.

Mae enillwyr y categorïau yn cynnwys:

- **Y Wobr Ymyrryd Cynnar – Enillydd: Bradley Cole, Llysgennad Ieuencid**
Cafodd Bradley, un o'm Llysgenhadon Ieuencid, y Wobr Ymyrryd Cynnar genedlaethol am ei waith eithriadol yn hyrwyddo lleisiau pobl ifanc, ac yn cyfrannu at gymunedau mwy diogel ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.
- **Mynd i'r Afael ag Iechyd Meddwl Gyda'n Gilydd – Enillydd: Together we Can**
Enillodd Together we Can, sy'n cael ei ariannu a'i gefnogi gan fy swyddfa, ei gategori am ei ymagwedd dull partneriaeth arloesol o ymdrin ag ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, llesiant ac ymyrryd cynnar, ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.
- **Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol – Enillydd: Gwasanaeth eiriolaeth stelcio cenedlaethol Paladin a Heddlu Dyfed-Powys**
Cafodd Paladin, sy'n gweithio gyda fy swyddfa i ddarparu peilot gwasanaeth eiriolaeth stelcio arbrofol, yn ogystal â Heddlu Dyfed-Powys y wobwr Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, i gydnabod eu gwaith yn cynorthwyo oedolion a phobl ifanc sydd wedi bod yn ddioddefwyr stelcio.

Cymeradwyaeth uchel:

- **Cymorth Creadigol a Chymunedol – Cymeradwyaeth uchel: Celf Aeron Arts (Ceredigion)**
Cafodd Celf Aeron Arts, sy'n cael cyllid trwy fy swyddfa i gynorthwyo dioddefwyr a goroeswyr trwy ymgysylltu â chelf therapiwtig, ganmoliaeth uchel am ei gymorth creadigol a chymunedol.



Canmoliaeth arbennig: Llwyddiannau Heddlu Dyfed-Powys

Cafodd Heddlu Dyfed-Powys lwyddiant ar y noson hefyd:

- Ymgyrch Scotney – Enillydd, am warchod pobl hŷn a bregus rhag sgamiau twyll.
- Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu, Anna Bowen – Enillydd, yn y categori Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Mae'r ddwy wobwr yn dangos y bartneriaeth waith gref rhwng fy swyddfa i a'r heddlu wrth ddarparu cymunedau mwy diogel.

Rwy'n falch iawn bod prosiectau a ariennir ac a gefnogir gan fy swyddfa wedi cael eu cydnabod yn genedlaethol. Mae Bradley, Paladin, Celf Aeron Arts a phartneriaeth Gyda'n Gilydd Gallwn i gyd yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi ymyrryd cynnar, llesiant a diogelwch y gymuned ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys.



Gaeaf o Weithredu

Bu fy swyddfa, ochr yn ochr â Heddlu Dyfed-Powys, yn cefnogi'r ymgyrch genedlaethol, Gaeaf o Weithredu, gan y Swyddfa Gartref. Nod yr ymgyrch gydlynol oedd mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau manwerthu wrth wella diogelwch mewn canol trefi. Yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, bu'r gweithgarwch yn canolbwyntio ar batrolau pwrpasol mewn ardaloedd â adnabyddwyd yn rhai risg uchel, plismona rhagweithiol i fynd i'r afael â lladradau siopau, troseddau stryd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol, a chynnydd mewn ymgysylltiad â busnesau a chymunedau lleol.

Cefnogwyd y gwaith hwn gan Ymgyrch Ivydene, sy'n darparu oriau patrôl ychwanegol a gorfodi pwrpasol mewn ardaloedd sy'n ymdrin â lefelau uwch o ymddygiad gwrthgymdeithasol, ochr yn ochr ag ymdrechion i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched, a gwella ymddiriedaeth a ffydd y cyhoedd yn ystod cyfnodau prysur gwyliau. Yn 2024, gyda chymorth gan fy swyddfa, cafodd Heddlu Dyfed-Powys bron i hanner miliwn o bunnoedd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys mewn ymateb pwrpasol. Yn ystod y flwyddyn gyntaf, cyflawnwyd dros 12,000 awr o batrolau pwrpasol mewn ardaloedd risg uchel, gyda gostyngiad o 40% o ran adroddiadau am ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Drwy weithrediadau a buddsoddiad pwrpasol, rydym yn sicrhau bod swyddogion yn bresennol pan fo'u hangen fwyaf, gan fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a chefnogi busnesau lleol yn ystod amser prysuraf y flwyddyn.

Cronfa Ardaloedd â Risg Uchel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Cyllid gan y Swyddfa Gartref yw'r Gronfa Ardaloedd â Risg Uchel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, ar gyfartegeddu ardaloedd â lefelau uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gynyddu patrolau. Yn 2025, gwnaethom sicrhau £996,293.37. Mae'r gronfa wedi parhau i gefnogi gweithgarwch pwrpasol mewn ardaloedd â risg uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan alluogi Heddlu Dyfed-Powys i ymateb i bryderon lleol a gwella diogelwch y gymuned.

Ymrwymiad sy'n cael ei lywio gan drawma

Mae fy swyddfa wedi parhau i gryfhau ein hymrwymiad i ymagwedd sy'n ystyriol o drawma ar draws ein gwaith. Mae hyn yn cynnwys datblygu datganiad sefydliadol y gellir ei ganfod ar ein gwefan, a chynllun gweithredu a gefnogir gan weithgor pwrpasol er mwyn sbarduno ei gynnydd. Drwy'r gweithgor, mae cynllun cyfaill ymarfer myfyriol wedi ei gyflwyno, er mwyn sicrhau bod gan staff amser penodol ar gyfer myfyrio ac ymgorffori egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn ymarfer o ddydd i ddydd.

Cyfrennais hefyd at gynhadledd genedlaethol ystyriol o drawma a gynhaliwyd yn Llandrindod, gan ddod â phartneriaid ledled Cymru ynghyd i rannu dysg ac arferion gorau wrth weithredu ymagweddau sy'n ystyriol o drawma yn y gweithle. Mae'r gwaith hwn yn adlewyrchu fy ymrwymiad ehangach i sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n gefnogol ac yn ymatebol i anghenion y rhai yr effeithir arnynt gan drawma.

Cafodd ein gwaith ei gydnabod fel enghraifft o arfer da, gyda phwyslais ar adnoddau megis y templedi sefydliadol a'r cynllun cyfaill myfyriol i gefnogi dysgu ar draws sefydliadau partner. Mae'r cyfraniad hwn yn adlewyrchu gwaith parhaus ac ymrwymiad fy staff i hyrwyddo dull sy'n ystyriol o drawma, a chefnogi cydweithredu ehangach ledled Cymru.

Cyngor ieuenctid Rhoi Dy Farn

Euthum i ddigwyddiad cyngor ieuenctid Rhoi Dy Farn yng Ngheredigion fel aelod o banel, a roddodd gyfle i mi glywed yn uniongyrchol gan blant a phobl ifanc am y materion sydd bwysicaf iddyn nhw. Ymgysylltodd y bleidlais â thros 2,000 o bobl ifanc, gan nodi eu prif flaenoriaethau, a oedd yn cynnwys cyfleoedd swyddi, trais yn erbyn menywod a merched, ac iechyd meddwl a llesiant.

Bu'r digwyddiad hwn yn lwyfan gwerthfawr i wrando ar brofiadau a safbwyntiau pobl ifanc, yn ogystal ag amlinellu'r camau a gymerir mewn ymateb i'w pryderon. Mae ymgysylltu fel hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a blaenoriaethau yn cael eu llunio gan leisiau pobl ifanc ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.



Dyletswydd Trais Difrifol

Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol, a gyflwynwyd o dan Ddeddf yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a Llysoedd 2022, yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydweithredu i atal a lleihau trais difrifol. Mae'r Swyddfa Gartref wedi dyrannu cyllid grant ar gyfer pob ardal heddlu i weithredu'r gwaith sy'n ofynnol er mwyn i bartneriaid gyflawni rhwymedigaethau craidd y ddyletswydd, ac i gefnogi cyflawni strategaethau lleihau trais difrifol.

Mae fy swyddfa wedi cydlynu ymateb ardal Heddlu Dyfed-Powys i'r Ddyletswydd Trais Difrifol. Mae hyn wedi cynnwys rheoli cyllid grant y Swyddfa Gartref a goruchwylio'r ymyriadau er mwyn mynd i'r afael â thrais difrifol yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae blaenoriaethau Heddlu Dyfed-Powys yn cynnwys trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, atal niwed ar-lein, ac ymyrryd yn gynnar.

Swyddogion heddlu ysgol

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i weithredu gwasanaeth heddlu ysgol sy'n cynorthwyo blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl a'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu ar gyfer 2025–2029, gan gydnabod heriau, anghenion a gofynion plismona lleol ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r gwasanaeth yn darparu sesiynau atal troseddu sy'n briodol i oedran, a gweithgareddau plismona cefnogol ar gyfer ysgolion i unedau cyfeirio disgyblion cynradd ac uwchradd, ac ysgolion arbenigol, gan helpu i hyrwyddo ymyrryd yn gynnar a diogelu plant a phobl ifanc trwy ddull sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Rhwng mis Medi 2025 a mis Ebrill 2026, cynhaliodd 14 o swyddogion heddlu ysgol 2,814 o ymgysylltiadau ag ysgolion, gan gyrraedd cynulleidfao o 60,193 o blant a phobl ifanc ar draws 328 o leoliadau addysgol. Yn ystod yr un cyfnod, ymatebodd swyddogion i 593 o ddigwyddiadau trechu troseddau ysgol, arweiniwyd 82 o sesiynau cyfiawnder adferol, a chyflwynwyd 96 o Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd er mwyn diogelu plant a phobl ifanc.

Rhwydwaith Arloesi a Gwella Dadansoddi Data Cymru

Mae Rhwydwaith Arloesi a Gwella Dadansoddi Data Cymru yn dod â dadansoddwyr ynghyd o bob cwr o Gymru i rannu dysg ac arferion gorau. Mae gwaith yn parhau i alluogi adneuo data'r heddlu yn rheolaidd o fewn cronfa ddata SAIL (cyswllt diogel gwybodaeth ddiennw), lle gellir eu cysylltu â setiau data gweinyddol, iechyd a chyfiawnder er mwyn darparu mewnwelediadau ar lefel y boblogaeth. Mae gweithgor wedi ei sefydlu, gyda chynrychiolwyr o'r pedwar heddlu yng Nghymru, wedi ei gydlynu gan fy swyddfa i, i ddatblygu'r trefniadau diogelu data a llywodraethu angenrheidiol.



Gweithwyr cyffuriau yn y ddalfa

Bu fy swyddfa yn gweithio gyda Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, a Kaleidoscope, i ddarparu gweithwyr cyffuriau o fewn dalfeydd, gan wella'r defnydd o brofion cyffuriau wrth arestio a darparu cymorth lleihau niwed ar unwaith ac ymyrryd byr i'r rhai y mae eu troseddu'n gysylltiedig â chyffuriau neu alcohol.

Cyfleoedd dargyfeirio ar gyfer troseddau meddu ar gyffuriau

Mae newidiadau i'r llwybr datrysiad y tu allan i'r llys ar gyfer troseddau meddu ar gyffuriau wedi cynyddu cyfleoedd ar gyfer dargyfeirio a thriniaeth o 55%, gan alluogi mwy o unigolion i gael mynediad at wasanaethau cymorth yn gynharach. Mae'r dull hwn hefyd wedi rhyddhau'r hyn sy'n cyfateb i 180 o ddiwrnodau plismona, gan ganiatáu mwy o ffocws ar fynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfrannu at gynydd o 15% yng nghyfraddau cyhuddo am droseddau masnachu cyffuriau.

Datrysiadau y tu allan i'r llys ar gyfer troseddwy'r cam-drin domestig

Fe wnes i ariannu cynllun newydd, CARA (**C**autioning and **R**elationship **A**buse), a lansiwyd ym mis Ebrill 2025, gyda'r nod o adnabod a chefnogi troseddwy'r cam-drin domestig a'u teuluoedd yn gynharach. Mae'r cynllun yn darparu llwybr atgyfeirio hanfodol i swyddogion rheng flaen, gan arwain unigolion cymwys tuag at ymyriadau pwrpasol fel dewis arall yn lle'r llys.

Mae ymgysylltu â CARA yn rhagofyniad ar gyfer rhybuddiad amodol, sydd ar gael i droseddwy'r sy'n cyflawni cam-drin domestig am y tro cyntaf, a'r rheiny a asesir fel rhai sy'n peri lefel isel o risg neu niwed i'w dioddefwyr. Mae'n cynnig ymyrryd yn gynnar ar gyfer cam-drin domestig sy'n cynnwysartneriaid agos, cyn-bartneriaid, ac aelodau'r teulu. Cynhelir y gwasanaeth gan Threshold Domestic Abuse Services, ac mae'n diogelu dioddefwyr a theuluoedd, ac yn darparu cymorth iddynt, ochr yn ochr â'r ymyriad o ran troseddwy'r.

Darganfod mwy:



Blaenoriaeth 3: Cefnogi System cyfiawnder troseddol mwy effeithiol

Mae system cyfiawnder troseddol deg ac effeithiol yn hanfodol er mwyn meithrin ymddiriedaeth a ffydd y cyhoedd, a sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi cydweithio'n agos â phartneriaid ar draws plismona, llysoedd prawf, iechyd a gwasanaethau cymorth er mwyn gwella tryloywder a sicrhau bod dioddefwyr a thystion yn cael eu cefnogi drwy gydol y broses.

Drwy graffu parhaus, cydweithredu a buddsoddi pwrpasol, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar wella canlyniadau, a sicrhau bod y system yn gweithredu mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma ac yn ymatebol i anghenion ein cymunedau.

Adroddiad cryno blynyddol y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol

Drwy fy ngwaith gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, partneriaeth amlasiantaeth sy'n dwyn ynghyd uwch-arweinwyr o blismona, Gwasanaeth Erlyn y Goron, y Gwasanaeth Prawf, cyfiawnder ieuenctid a gwasanaethau dioddefwyr, rwyf wedi parhau i gefnogi gweledigaeth gyffredin o wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system

cyfiawnder troseddol ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cynnwys ffocws cryf ar wella profiad dioddefwyr a thystion, yn ogystal â meithrin hyder yn y system drwy weithio mewn partneriaeth agosach, a dull mwy cydlynol o gyflawni cyfiawnder.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn y cylchlythyr blynyddol:



Tudalen 27

Prosiect 'Eiliadau Cyraeddadwy' y ddalfa

Cefnogais gyflwyno cynllun peilot Eiliadau Cyraeddadwy, dan arweiniad Heddlu Dyfed-Powys, sy'n anelu at dorri cylch troseddu pobl ifanc drwy ddarparu cymorth amserol i blant a phobl ifanc sydd yn y ddalfa. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar ddefnyddio adegau ymyrryd neu 'eiliadau cyraeddadwy', lle gall pobl ifanc fod yn fwy agored i gymorth ac ymgysylltiad.

Wedi ei gyflwyno mewn partneriaeth ag Adferiad, mae'r cynllun peilot yn darparu cymorth un-i-un ar unwaith gan weithwyr hyfforddedig, gan helpu pobl ifanc i ddeall achosion eu hymddygiad, cael mynediad at wasanaethau priodol, a gwneud dewisiadau mwy cadarnhaol yn eu bywydau. Mae'r dull ymyrryd yn gynnar hwn wedi ei gynllunio i leihau aildroseddu a chynorthwyo plant a phobl ifanc i fyw bywydau heb droseddu.



Agor canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol newydd

Agorodd Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol newydd yn Aberystwyth ym mis Hydref 2025, gan ddarparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys. Adeiladwyd y ganolfan gan ddefnyddio cyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru, yn dilyn cais llwyddiannus gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, sydd hefyd wedi goruchwyllo datblygiad y cyfleuster. Mae'r gwasanaethau a ddarperir o'r ganolfan yn cael eu hariannu ar y cyd gan fy swyddfa i, partneriaid y GIG, a'r heddlu, ac mae'n cynnig gwasanaethau meddygol ffforensig, cwnsela ac eiriolaeth mewn amgylchedd diogel a chyfrinachol.

Yn dilyn yr agoriad, cwblhawyd gwaith adnewyddu hefyd yng Nghanolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol y Drenewydd ym mis Ebrill 2026, gan wella'r amgylchedd a'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr

Rhaglen Gwasanaethau Ymosodiad Rhywiol Cymru

Rwy'n parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws plismona ac iechyd i ddarparu gwasanaeth a rennir i ddioddefwyr cam-drin rhywiol ledled Cymru. Cynhaliwyd cyfres o weithdai yn ystod 2025 a 2026 i ddiffinio gofynion y rhaglen, manylebau gwasanaeth, cynnwys rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaeth a threfniadau ariannol. Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygu manyleb gwasanaeth llawn a fydd yn dwyn ynghyd bob elfen o gefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin rhywiol. Bydd y gwasanaeth yn cael ei gaffael yn ystod 2026/27 a'i ariannu ar y cyd gan blismona ac iechyd.

Darganfod mwy:



a goroeswyr trais rhywiol ledled y rhanbarth. Mae'r buddsoddiad hwn yn adlewyrchu fy ymrwymiad i roi dioddefwyr a goroeswyr wrth wraidd fy mlaenoriaethau yng [Nghynllun Heddlu a Throseddu 2025-2029](#), gan sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu.

I gael rhagor o wybodaeth, ac i gael mynediad at gymorth, ewch i:



Seremoni Flynyddol Heddlu Dyfed-Powys

Cyflwynais Wobr Partneriaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu i'r cyn Ddirprwy Brif Erlynydd y Goron Iwan Jenkins yn ystod Seremoni Wobrwyo Flynyddol Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r wobr yn cydnabod ei gyfraniad hirhoedlog at bartneriaethau cyfiawnder troseddol, ei arweinyddiaeth mewn erlyniadau uchel eu proffil a'i waith wrth ddatblygu cefnogaeth i ddioddefwyr.

Blwyddyn mewn rhifau yn 2025–2026

Byrddau
Plismona:
9

Cyfanswm
y grantiau a
gwerth y cyllid:
£1,482,870.31

Grantiau a gafwyd:
£1,227,987.76

Cyllid CHTh a
ddosbarthwyd:
£254,882.55

Nifer yr
adolygiadau a
gafwyd:
53

Nifer yr ymweliadau
gan Ymwelwyr
Annibynnol â
Dalfeydd:
52

Ymweliadau'r
Cynllun Lles
Anifeiliaid:
58

Ymweliadau â'r
wefan:
60,000

Diwrnodau
ymgysylltu â'r
gymuned:
11

Postiadau
cyfryngau
cymdeithasol:
dros 1350

Ymgyrchoedd
a gefnogwyd:
56

Nifer y bobl a
gymerodd ran yn
ein harolygon:
Dros 2850

Dros **500** o
ymwelwyr i
ddigwyddiadau
ymgysylltu yn y
Pencadlys.

Dioddefwyr wedi
ymgysylltu ac
wedi cael cymorth:
5838

Cyfanswm y
troseddwyd a
gynorthwywyd:
2684

Plant a
phobl ifanc a
gynorthwywyd ac a
warchodwyd, gydag
atgyfeiriadau ar gyfer
ôl-drafodaeth:
387

Mae'r niferoedd hyn yn adlewyrchu dim ond rhai o'r
ffyrdd rydym wedi gweithio i wneud plismona'n fwy
tryloyw, hygyrch ac dan arweiniad y gymuned dros
y flwyddyn ddiwethaf.

Comisiynu gwasanaethau a gwaith partneriaeth

Fel eich Comisiynydd Heddlu a Throseddau, mae gennyf amryw o gyfrifoldebau statudol sy'n llunio sut rwy'n gweithio gyda phartneriaid er mwyn lleihau troseddau, gwarchod cymunedau, a gwella canlyniadau ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae hyn yn cynnwys dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth diogelwch y gymuned i weithio ar y cyd, i fynd i'r afael â throseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, aildroseddau a chamdddefnyddio sylweddau, ochr yn ochr â chyfrifoldebau o fewn y system cyfiawnder troseddol i gynnal ei heffeithlonrwydd a'i heffeithiolrwydd er mwyn y cyhoedd.



Rwyf hefyd yn chwarae rhan allweddol mewn diogelu, yn enwedig wrth warchod plant a phobl ifanc a hyrwyddo eu lles. Drwy weithio mewn partneriaeth ar y cyd, ac ymgysylltu parhaus ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol, mae fy swyddfa yn parhau i gryfhau gwasanaethau sy'n cadw pobl yn ddiogel, yn cefnogi dioddefwyr, ac yn mynd at wraidd achosion niwed.

Cyllid y Weinyddiaeth

Yn ogystal â'r grant craidd i Ddioddefwyr, mae cyllid pwrpasol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig a thrais rhywiol wedi sicrhau bod cefnogaeth hanfodol i wasanaethau i ddioddefwyr wedi parhau. Mae cyllid ychwanegol drwy'r Gronfa Gomisiynu Strategol wedi galluogi nifer o ddatblygiadau o fewn 2025/26 gan gynnwys y ddarpariaeth Fy Man Cymorth a ddarperir gan Gymorth i Ddioddefwyr, lle mae cyfres o uwchraddiadau newydd pwerus wedi gwella profiad y defnyddiwr yn sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys Modd Argyfwng, sy'n galluogi defnyddwyr i gael eu tywys yn gyflym at gefnogaeth briodol wedi'i theilwra a Modd Digwyddiad Byw, sy'n caniatáu rhannu rhybuddion amserol yn ystod digwyddiadau

mawr lleol. Mae Cymorth i Ddioddefwyr hefyd wedi cyflwyno Cyfeiriadur Gwasanaethau newydd sy'n darparu cyfeirio cliriach a mwy effeithiol at sefydliadau a gwasanaethau cymorth perthnasol.

Cefnogodd y Gronfa Gomisiynu Strategol hyfforddiant ac astudiaeth ddichonoldeb hefyd i wasanaethau i ddioddefwyr weithio gyda chyrff llywodraethu cwnsela a seicotherapi i werthuso argaeledd ac addasrwydd offer AI mewn cymorth i ddioddefwyr. Canolbwyntiodd hyn yn helaeth ar sicrwydd moesegol a chefnogi diogelwch ac urddas wrth ddarparu gwasanaethau.

Gwaith partneriaeth Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau

Yn gynnar yn rhaglen diwygio'r heddlu gan Lywodraeth y DU, neilltuodd Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau adnoddau penodol ar ddiwygio'r heddlu a datganoli yn Lloegr. Roedd hyn yn cynnwys dau secondai dros dro rhan-amser o swyddfeydd comisiynwyr heddlu a throseddau, gydag un o'm swyddfa i.

Gan weithio gyda Rheolwr Polisi Cymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau yn yr Uned Gyswllt Heddlu, y prif rôl fu darparu mewnwelediadau a sicrhau bod digon o sylw yn cael ei roi i statws Cymru fel gwlad yng nghyd-destun y diwygiadau.

Mae tîm Diwygio a Datganoli'r Heddlu yng Nghymdeithas y Comisiynwyr Heddlu a Throseddau wedi ei integreiddio i Dîm Diwygio'r Heddlu ar y Cyd ehangach, sef cydweithrediad o gynrychiolwyr o bob cwr o'r sector plismona, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, y Coleg Plismona, a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Mae'r tîm hwn yn gyfrifol am ddylunio a sbarduno gweledigaeth, strategaeth a phortffolio diwygio'r heddlu.



Cydweithrediad Heddlu Cymru

Eleni, parheais i gefnogi Cydweithrediad Heddlu Cymru, sydd wedi ehangu ei rôl o ran rheoli adnoddau, galluoedd a risg a rennir ar draws heddluoedd Cymru. Mae Cydweithrediad Heddlu Cymru wedi cyflawni gwelliannau nodedig mewn meysydd fel cymorth i ddioddefwyr ar gyfer trais a throseddau rhywiol, ymateb i argyfyngau iechyd meddwl a phrosesau gweithredol rheng flaen, gan ddangos gwerth plismona cydweithredol o fewn ein cymunedau.

Cydweithrediad Academaidd Heddlu Cymru Gyfan

Ym mis Medi 2025, cynhaliwyd ail symposiwm ymchwil blynyddol Cydweithrediad Academaidd Plismona Cymru Gyfan (AWPAC) ym Mhrifysgol Wrecsam, gan ddod â heddluoedd, sefydliadau academaidd a chomisiynwyr ynghyd i archwilio sut y gall ymchwil wella ymddiriedaeth y cyhoedd ac effeithiolrwydd ledled Cymru.

Roedd y symposiwm yn cynnwys gweithdy dan arweiniad pob un o bedair SCHTh Cymru, o'r enw Blaenoriaethau Plismona a Chyfleoedd Ymchwil. Yn y gweithdy hwn, amlinellodd staff o'm swyddfa gynlluniau heddlu a throseddu, rhoddwyd trosolwg o'r blaenoriaethau cyfredol ar draws pob un o'r pedair ardal heddlu yng Nghymru, a gwahoddwyd ymchwilwyr i ymgysylltu â'r blaenoriaethau hyn er mwyn sicrhau bod ymchwil yn y dyfodol mor berthnasol ac effeithiol â phosibl.



Aelodaeth y bwrdd diogelu rhanbarthol

Fel rhan o'm cyfrifoldebau statudol, rwy'n parhau i gynrychioli ar Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru (CYSUR). Mae'r bartneriaeth ranbarthol hon yn dwyn ynghyd iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, yr heddlu a'r trydydd sector i hyrwyddo arfer gorau, diogelu plant a phob oedolyn sydd mewn perygl, a chyfrannu at ddysgu a rennir trwy adolygiadau a chynllunio strategol.

Mae'r prif feysydd ffocws ar gyfer 2026–2027 yn cynnwys y canlynol:

1. Cynnal gwerthusiad a dadansoddiad data cyfoethocach a mwy ansoddol er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei arwain gan dystiolaeth.
2. Cryfhau ymgysylltiad â'r rhai sydd â phrofiad personol er mwyn sicrhau bod eu safbwyntiau yn llywio ymarfer yn uniongyrchol.
3. Grymuso cymunedau drwy hwyluso hygyrchedd adnoddau a chanllawiau mewn perthynas â diogelu a llesiant.

Rwyf wedi dod ag asiantaethau partner ynghyd er mwyn adolygu trefniadau ariannu gwasanaethau cymorth yn sgil trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan arwain at dull a rennir cryfach, a buddsoddiad ychwanegol mewn gwasanaethau.

Gweithio mewn partneriaeth â Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol

Rwy'n cadeirio cyfarfodydd chwarterol gyda rheolwyr partneriaethau diogelwch cymunedol er mwyn rhannu gwybodaeth, uwchgyfeirio unrhyw faterion neu bryderon, a chydweithredu.

Cynhaliwyd cyfarfod rhyngof fi a rheolwyr y partneriaethau diogelwch cymunedol ym mis Ionawr 2026 er mwyn adolygu blaenoriaethau partneriaeth a thrafod meysydd ffocws cyffredin. Roedd swyddogion arweiniol cydlyniant cymunedol hefyd yn bresennol, gan gefnogi trafodaethau ar sut y mae ffrydiau gwaith yn cyd-fynd o fewn dull strategol y cydlyniant cymunedol. Rhannwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y dirwedd diwygio'r heddlu, penderfyniadau praesept, diogelwch ffyrdd, dyletswydd trais difrifol, a Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel. Cadarnhaodd partneriaid fod perthnasoedd gwaith cadarnhaol a sianeli cyfathrebu effeithiol yn parhau i gefnogi cydweithio ar draws sefydliadau.

Ymgysylltu

Rhwydwaith Heddlu LHDT+ Cymru

Dyfarnwyd statws Cynghreiriad Aur iBennaeth Strategaeth a Pholisi fy Swyddfa ac un o'm Ymgynghorwyr Polisi drwy Rhwydwaith Heddlu LHDT+ Cymru, gan gydnabod eu cefnogaeth weithredol a gweladwy i gynhwysiant LHDT+ o fewn plismona. Mae'r gydnabyddiaeth yn dangos ein hymrwymiad i sefyll yn gadarn fel cynghreiriaid i gydweithwyr, staff a chymunedau LHDT+, gyda'r wobr aur wedi ei chadw ar gyfer y rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n angenrheidiol yn gyson i herio gwahaniaethu, hyrwyddo cynhwysiant, ac arwain trwy esiampl ar draws eu sefydliad. Mae'r cyflawniad hwn yn dangos pa mor ymroddgar yw fy nhîm i sicrhau y gall pawb deimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi, ac yn gallu bod yn nhw eu hunain go iawn yn y gwaith.



Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli

Ym mis Awst 2025, cynhaliwyd cyfarfod rhwng fy swyddfa, cydweithwyr o Heddlu Dyfed-Powys, ac aelodau o Rhwydwaith Amlddiwylliannol Llanelli i drafod gwella ymgysylltiad â chymunedau amrywiol a lleiafrifoedd ethnig. Tynnodd y drafodaeth sylw at bryderon parhaus ynghylch lefelau isel o ymddiriedaeth yn yr heddlu a'r system cyfiawnder troseddol ehangach, ochr yn ochr â thensiynau

cymunedol cynyddol. Mynegodd sylfaenydd a chydlynnydd y rhwydwaith barodrwydd cryf i gydweithredu ar fentrau sydd â'r nod o feithrin perthnasoedd gwell ac annog ymdeimlad mwy o ddiogelwch a chynhwysiant.



Ymweliad â EYST gyda'r Prif Gwnstabl

Bûm i a'r Prif Gwnstabl, Ifan Charles, yn ymweld â EYST, elusen sy'n cefnogi pobl ifanc, teuluoedd ac unigolion o leiafrifoedd ethnig, er mwyn dysgu mwy am waith y sefydliad yn cefnogi cymunedau amrywiol ledled Cymru.

Yn ystod yr ymweliad, canolbwyntiwyd y trafodaethau ar yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu cymunedau, yn ogystal â phwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn meithrin ymddiriedaeth, gwella ymgysylltiad, a sicrhau bod gwasanaethau yn hygyrch i bawb. Rhoddodd yr ymweliad gyfle i archwilio sut y gall plismona a sefydliadau partner barhau i gydweithio i gynorthwyo unigolion o gefndiroedd amrywiol. Bu'n bleser dysgu mwy am y gwaith hanfodol y maen nhw'n ei wneud o fewn cymunedau ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys a Chymru.

Mae fy swyddfa hefyd wedi cael y cyfle i gyfarfod â EYST sawl gwaith drwy gydol y flwyddyn i drafod hyrwyddo ein cynlluniau gwirfoddoli a sut y gallwn gydweithio i gynyddu cynrychiolaeth ar draws cynlluniau.

Dysgwch fwy am EYST yma:





Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb

Mae Wythnos Genedlaethol Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb yn fenter genedlaethol sy'n cefnogi dioddefwyr ac yn ymgysylltu â chymunedau i frwydro yn erbyn troseddau casineb yn y DU, a chodi ymwybyddiaeth ohonynt. Canolbwyntiodd thema 2025 ar droseddau casineb yn erbyn pobl ag anableddau, ac amlygodd y rhwystrau a'r heriau y mae pobl ag anableddau yn eu hwynebu.

Fel rhan o Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb, cynhelais weminar i daflu goleuni ar effaith troseddau casineb, pwysigrwydd eu hadrodd, a'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr. Roedd yn cynnwys mewnbwn gan Cymorth i Ddioddefwyr Dyfed-Powys a Heddlu Dyfed-Powys, gyda siaradwyr yn archwilio'r rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu wrth adrodd troseddau casineb, gan rannu mewnwlediad i'r dirwedd leol, a thrafod sut y gall gwasanaethau a phartneriaid gydweithio i fynd i'r afael â'r troseddau niweidiol hyn.



Sioe Sir Benfro

Ym mis Awst 2025, roeddem yn falch o fod yn bresennol yn Sioe Sir Benfro ochr yn ochr â Heddlu Dyfed-Powys. Cyfarfu fy nhîm a minnau â llawer o ymwelwyr, ac roeddwn i ar y stondin ddydd lau i siarad yn uniongyrchol â phobl o bob cwr o'r sir. Ymunodd ein gwirfoddolwyr, gan gynnwys Llysgenhadon Ieuenctid, â'r sioe hefyd, gan siarad ag ymwelwyr am eu profiadau ac annog eraill i gymryd rhan. Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i siarad â ni, a ofynnodd gwestiynau, ac a rannodd eu hadborth. Bu'n gyfle gwerthfawr i wrando ar safbwyntiau a phrofiadau pobl yn uniongyrchol, i godi ymwybyddiaeth o'n gwaith, ac i hyrwyddo ffyrdd i bobl gymryd rhan yn ein cymunedau.



Diwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned

Fel rhan o Ddiwrnodau Ymgysylltu â'r Gymuned, rwy'n ymweld â sefydliadau fel ysgolion, busnesau, prifysgolion, grwpiau gwirfoddol, a'r rhai a allai deimlo'n fregus yn ein cymunedau. Mae'r diwrnodau hyn yn rhan hanfodol o'm gwaith ymgysylltu, ac yn fy ngalluogi i glywed o lygad y ffynnon gan y preswylwyr am y materion sydd bwysicaf iddyn nhw.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rwyf wedi bod i 11 diwrnod ymgysylltu â'r gymuned ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys ac wedi cyfarfod ag aelodau'r cyhoedd, pobl ifanc, partneriaid, cyngorwyr a pherchnogion busnesau. Mae'r diwrnodau ymgysylltu hyn yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i wrando'n uniongyrchol ar gymunedau, deall pryderon lleol, a sicrhau bod lleisiau cymunedol yn parhau i ddylanwadu ar flaenoriaethau plismona.



Sioe Frenhinol Cymru

Ym mis Gorffennaf, aeth fy nhîm i Sioe Frenhinol Cymru ochr yn ochr â Heddlu Dyfed-Powys, er mwyn ymgysylltu ag aelodau'r cyhoedd, codi ymwybyddiaeth o'n holl waith, a hyrwyddo cyfleoedd i ymuno â'n cynlluniau gwirfoddoli. Drwy gydol yr wythnos, buom yn siarad â channoedd o ymwelwyr. Mae'r digwyddiad yn parhau i fod yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth, meithrin perthnasoedd, a sicrhau bod anghenion ein cymunedau gwledig yn cael eu clywed. Diolch i bawb a gymerodd yr amser i alw heibio a siarad â ni. Chwaraeodd ein gwirfoddolwyr, gan gynnwys ein Llysgenhadon Ieuenctid, ran bwysig drwy gydol y sioe, gan siarad ag ymwelwyr a rhannu eu profiadau.



Diwrnod Agored
Ieuenctid ym
mhencadlys yr heddlu

Mae ymgysylltu â phobl ifanc yn parhau i fod yn ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ystod 2025, cynhaliwyd nifer o ddiwrnodau agored ar gyfer pobl ifanc ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys, gan groesawu pobl ifanc o bob cwr o ardal yr heddlu i ddysgu mwy am blismona, gyrfaoedd a chyfleoedd gwirfoddoli. Mewn partneriaeth â Heddlu Dyfed-Powys, roedd y diwrnod yn cynnwys arddangosiadau rhyngweithiol a sgysiau gan amrywiaeth o dimau arbenigol, gan gynnwys yr Adran Gŵn, Fforenseg, a'r Tim Troseddau Gwledig. Cafodd myfyrwyr gyfle hefyd i gymryd rhan mewn Ystafell Dianc rhag Seiberdroseddu,



mynd ar daith o amgylch Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu, a chlywed yn uniongyrchol gennyf fi a'r Prif Gwnstabl. Roedd yn wych gweld cymaint o frwdfrydedd, chwilfrydedd ac ymgysylltiad gan bawb a oedd yn bresennol.

Gwaith ymgysylltu â
ieuenctid

Ar ddiwedd mis Mawrth 2026, treuliodd pobl ifanc o'm cynllun llysgenhadon ieuenctid y diwrnod yn y pencadlys yn Llangynnwr, gan gyfarfod â mi, y Prif Gwnstabl, Ifan Charles, a'r tim seiberdroseddu. Rhoddodd y diwrnod gyfle i'r llysgenhadon ieuenctid ofyn cwestiynau i uwch-arweinwyr ym maes plismona, deall bygythiad seiberdroseddu, a datblygu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer Plant a Phobl Ifanc newydd. Bydd y strategaeth newydd hon yn sicrhau bod lleisiau a phroblemau pobl ifanc yn cael eu clywed.



Mae'n hanfodol bod gan bobl ifanc lais wrth lunio'r gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar eu bywydau. Mae ein cynllun llysgenhadon ieuenctid yn darparu llwyfan i'r llais hwnnw gael ei glywed, a rhoddodd y sesiwn gynllunio hon gyfle gwerthfawr i gydweithio i ddylanwadu ar ein dull o ymgysylltu â phobl ifanc yn y dyfodol.

Drwy gynnwys pobl ifanc yn uniongyrchol yn natblygiad y strategaeth hon, rydym yn sicrhau ei bod yn adlewyrchu eu hanghenion, eu profiadau a'u syniadau. Rwy'n ddiolchgar i'n holl lysgenhadon am eu brwdfrydedd, eu mewnwelediad a'u hymrwymiad parhaus.



Tudalen 31



Digwyddiad Drysau Agored ym
mhencadlys yr heddlu

Ym mis Hydref 2025, croesewais gynrychiolwyr cymunedol i'r pencadlys i gael cipolwg y tu ôl i'r llenni ar unedau arbenigol, gan gynnwys Trais Difrifol a Throseddu Trefnedig, Seiberdroseddu, a Chanolfan Gyfathrebu'r Heddlu. Nod y digwyddiadau oedd rhoi dealltwriaeth gynhwysfawr i gynrychiolwyr cymunedol o'r gwaith helaeth sy'n cael ei wneud gan Heddlu Dyfed-Powys i sicrhau bod ein cymunedau yn parhau i fod yn ddiogel rhag niwed, ac i feithrin tryloywder ac ymddiriedaeth yn y ffordd y mae'r heddlu'n gweithredu.

10fed Cynhadledd
Gŵyl Ddewi

Ym mis Mawrth, cynhelais fy 10fed Cynhadledd Gŵyl Ddewi flynyddol, a fu'n canolbwyntio ar blismona mewn oes ddigidol. Daeth y digwyddiad â gweithwyr proffesiynol yr heddlu, sefydliadau partner, busnesau, academyddion a chynrychiolwyr cymunedol ynghyd i archwilio sut y mae technoleg ddatblygol, deallusrwydd artifisial a bygythiadau seiber yn llunio plismona modern a diogelwch y gymuned.

Roedd y gynhadledd yn cynnwys siaradwyr o blismona, ymchwiliadau seiber, ac ymchwil, gan gynnig cipolwg ar y cyfleoedd a'r heriau a gyflwynir gan dechnolegau digidol sy'n esblygu'n gyflym. Rwy'n ddiolchgar i'r holl



siaradwyr a'r sawl a fu'n bresennol ac a gyfrannodd at ddiwrnod mor ddeallus ac ysgogol. Wrth i dechnoleg barhau i esblygu, mae'n hanfodol bod plismona, partneriaid a chymunedau yn cydweithio er mwyn deall y cyfleoedd a'r heriau y mae'n eu cyflwyno. Mae digwyddiadau fel hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn wybodus, yn gydweithredol, ac yn barod i ymateb i natur newidiol troseddu yn yr oes ddigidol.

Lansio Cyswllt Dyfed Powys

Lansiwyd platfform negeseuon cymunedol newydd, Cyswllt Dyfed-Powys, yn swyddogol ym mis Medi 2025. Mae'r system hon yn caniatáu i drigolion gofrestru ar gyfer rhybuddion, ymateb i arolygon a derbyn diweddariadau'n uniongyrchol gan fy swyddfa a Heddlu Dyfed-Powys. Mae'n gam tuag at gyfathrebu mwy uniongyrchol ac ymatebol. Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru ewch i:



Digwyddiadau recriwtio
a gyrfaoedd

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae fy swyddfa wedi bod i nifer o ddigwyddiadau gyrfaoedd a gwirfoddoli ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys, a'u cefnogi. Mae'r digwyddiadau hyn wedi bod yn ffordd ardderchog i'm tim ymgysylltu â chymunedau i helpu i godi ymwybyddiaeth o'n cynlluniau gwirfoddoli a rhoi cyfle i hyrwyddo gwaith gwerthfawr ein gwasanaethau comisiwn.

Digwyddiad Gyrfaoedd
Prifysgol Aberystwyth

Cefais y cyfle i fynychu ac ymuno â phanel o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio o fewn y sector troseddeg, yn nigwyddiad 'Cwrdd â'r Cyflogwyr' Prifysgol Aberystwyth ym mis Mawrth 2026. Roedd yn bwysig i bobl ifanc glywed yn uniongyrchol gan weithwyr proffesiynol o fewn y sector, gofyn cwestiynau, ac archwilio cyfleoedd gyrfa. Cefais rannu fy mhrofiad fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, a'r camau gyrfa sy'n arwain ato.



Atebolrwydd a chraffu

Gwirfoddoli

Mae gwirfoddolwyr yn rhan hanfodol o'r gwaith a wnawn, ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r rhai sy'n rhoi eu hamser a'u hegni i'n helpu i wella sut yr ydym yn gweithio, a sut yr ydym yn gwasanaethu'r cyhoedd.

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn dysgu mwy am ein cynlluniau gwirfoddoli, neu os hoffech gymryd rhan, ewch i'n gwefan:



Ymwelwyr lles anifeiliaid

Rwy'n hwyluso Cynllun Lles Anifeiliaid dan arweiniad gwirfoddolwyr er mwyn darparu goruchwyliaeth annibynnol o les cŵn heddlu yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae ein gwirfoddolwyr lles anifeiliaid yn ymweld â swyddogion cŵn yn rheolaidd

i arsylwi ac adrodd ar lety, hyfforddiant, cludiant a lleoliad cŵn heddlu, gan helpu i sicrhau safonau uchel a ffydd y cyhoedd. Mae'r arolygiadau hyn yn cael eu harwain gan y pum angen lles a gydnabyddir yn gyfreithio o fewn Deddf Lles Anifeiliaid 2006:

1. Amgylchedd addas
2. Deiet addas
3. Gallu arddangos patrymau ymddwyn arferol
4. Llety gyda, neu ar wahân i anifeiliaid eraill
5. Cael eu gwarchod rhag poen, dioddefaint, anaf a chlefyd

Yn 2025–2026 cynhaliodd ein gwirfoddolwyr 58 o ymweliadau, ac ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol.

Darganfod mwy:



Y Panel Sicrhau Ansawdd

Bydd y Panel Sicrhau Ansawdd yn craffu ar feysydd cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd; e.e. achosion cwynion, digwyddiadau stopio a chwilio, a sut y mae'r heddlu'n ymdrin â galwadau drwy'r Ganolfan Gyfathrebu, h.y. galwadau 101 a 999. Mae cyfarfodydd wedi arwain at welliannau, megis hyfforddiant gwell ar gam-drin domestig ac adrodd ar ddefnyddio grym, cywirdeb data gwell yn dilyn cyfnod pontio'r gwasanaeth i systemau newydd, a safonau uwch ym mhroffesiynoldeb swyddogion. Mae'r Panel Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddarparu adborth adeiladol sy'n helpu i lunio'r ddarpariaeth gwasanaeth.

Darganfod mwy:



Ansawdd asesu fideo camera corff a rhyngweithio Heddlu Dyfed-Powys trwy alwadau fideo o'r enw GoodSam, ac asesu cydymffurfedd â'r pum egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol, a chymharu lefel y gwasanaeth rhwng swyddogion rheng flaen a GoodSam.

Y Panel Sicrhau Ansawdd – defnyddio grym

Ym mis Mai 2025, bu'r Panel Sicrhau Ansawdd yn ystyried detholiad o ddigwyddiadau defnyddio grym yn ymwneud â phlant, menywod ac aelodau o'r gymunedau lleiafrifol ethnig. Bu'r Panel yn ystyried a oedd defnyddio grym yn angenrheidiol, yn briodol ac yn gymesur. Yn ogystal, profwyd am unrhyw wahaniaethu uniongyrchol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac a gafodd yr unigolyn ei drin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig.

Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa

Ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2024, mae Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa wedi cynnal 182 o adolygiadau thematig o gofnodion y ddalfa er mwyn sicrhau bod yr heddlu yn gweithredu gweithdrefnau cadw a gweithdrefnau'r ddalfa yn gymesur, yn gyfreithlon ac yn briodol. Mae gwirfoddolwyr yn adolygu cofnodion dalfa sy'n ddienw, a detholiad o fideos o gamerau corff i asesu y defnyddio o rym, ystyriaethau diogelu, a chydymffurfedd â pholisi a gweithdrefn. Cyfarfu Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa bum gwaith drwy gydol 2025–26, ac mae ei gyfraniadau yn ategu gwaith yr ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa drwy ganolbwyntio ar dryloywder a nodi arferion da a gwael. Mae'n sicrhau bod hawliau a lles unigolion yn y ddalfa yn cael eu monitro'n barhaus, a bod unrhyw faterion a nodwyd yn cael eu hadrodd yn ôl i Heddlu Dyfed-Powys er mwyn eu gwella.

Darganfod mwy:





Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalffa

Mae ein hymwelwyr annibynnol â'r ddalffa yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth sicrhau bod unigolion yn y ddalffa yn cael eu trin yn deg ac yn briodol. Mae gwirfoddolwyr yn ymweld yn ddirybudd â dalffeydd yr heddlu er mwyn gwirio hawliau, tegwch a lles unigolion yn y ddalffa. Yn ystod 2025–2026:

- Cynhaliwyd 52 o ymweliadau gan ymwelwyr annibynnol â'r ddalffa
- Roedd 150 o oedolion yn y ddalffa ar adeg yr ymweliadau

Darganfod
mwy:



Roedd 6 unigolyn ifanc yn y ddalffa ar adeg yr ymweliadau

- Arsylwyd 46 o unigolion yn y ddalffa
- Ymwelwyd â 75 o unigolion yn y ddalffa

Mae'r ymweliadau hyn yn helpu i hyrwyddo atebolrwydd a ffydd y cyhoedd yn y ffordd y mae unigolion yn y ddalffa yn cael eu trin. Mae ymroddiad ein gwirfoddolwyr, sy'n rhoi o'u hamser yn rhad ac am ddim, yn parhau i fod yn ganolog i lwyddiant parhaus y cynllun. Defnyddir eu harsylwadau a'u hadborth i nodi arfer da, ac ymdrin ag unrhyw broblemau neu bryderon yn brydlon.

ddiwethaf, ailenwyd y rhwydwaith i adlewyrchu rôl a chyfraniad ehangach y rhai sy'n cymryd rhan yn well.

Mae aelodau'r rhwydwaith yn cyfrannu drwy arolygon ac ymgynghoriadau, gweithdai a digwyddiadau ymgysylltu, gan roi adborth gwerthfawr ar wasanaethau a gweithdrefnau. Mae hyn yn ein helpu i nodi meysydd i'w gwella wrth gryfhau cymorth i ddioddefwyr a thystion, a sicrhau bod gwasanaethau yn parhau i fod yn wybodus am drawma ac yn canolbwyntio ar y dioddefwr.

Panel Craffu Cymunedol

Ym mis Chwefror 2026, lansiwyd fy Mhanel Craffu Cymunedol newydd, gan wahodd aelodau'r panel i adolygu cyswllt yr heddlu â'r cyhoedd yn annibynnol mewn ffordd dryloyw a diduedd. Gofynnwyd i wirfoddolwyr graffu ar ansawdd rhyngweithiadau'r heddlu ochr yn ochr â'r defnydd moesegol o bwerau'r heddlu a'r gwasanaeth a ddarperir i'n cymunedau.

Mae'r panel yn gweithredu fel llais cyhoeddus annibynnol, gan ddarparu barn ac argymhellion i Heddlu Dyfed-Powys i helpu i gryfhau tryloywder ac atebolrwydd. Ar ôl cynllun peilot



llwyddiannus yn Aberystwyth, mae'r cynllun wedi ei gyflwyno ledled y rhanbarth, ac edrychaf ymlaen at ei ddatblygu ymhellach yn y flwyddyn nesaf.

Dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblem

Yn dilyn arolygiad gan Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, nodwyd bod angen i Heddlu Dyfed-Powys gryfhau agweddau ar ymgysylltu â'r gymuned plismona bro. Mewn ymateb, cysylltodd Heddlu Dyfed-Powys â'm swyddfa i gydweithio ar y trefniadau craffu ar ddatblygu yn ymwneud â chynlluniau dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblem.

Mae dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblem yn annog swyddogion i edrych y tu hwnt i ddigwyddiadau unigol, ac yn lle hynny nodi patrymau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio ar gymunedau lleol. Mae cynlluniau dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblem wedi eu cynllunio i gefnogi dull mwy strwythuredig a hirdymor o ddatrys problemau lleol a lleihau niwed.

Diben cyffredinol y broses graffu yw asesu a ydyw cynlluniau dull plismona sy'n canolbwyntio ar broblem arfaethedig yn rhesymol, yn gymesur ac yn angenrheidiol, gan gefnogi tryloywder a ffydd cymunedol mewn gweithgareddau plismona lleol.

Y Grŵp Ymgynghorol Annibynnol

Mae'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn dwyn ynghyd unigolion o ystod amrywiol o gefndiroedd a phrofiadau er mwyn helpu i gefnogi plismona teg ac effeithiol. Mae'r Grŵp Ymgynghorol Annibynnol yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys tensiynau cymunedol, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ffydd y cyhoedd, ac effaith plismona ar wahanol grwpiau cymunedol. Drwy drafodaeth agored ac adborth annibynnol, mae'r grŵp yn helpu i lywio penderfyniadau, ac yn cefnogi mwy o dryloywder ac atebolrwydd.

Datrysiadau y tu allan i'r llys

Rwyf wedi parhau i gefnogi gwaith y panel craffu ar ddatrysiadau y tu allan i'r llys, sy'n cyfarfod bob tri mis ac yn goruchwyllo sut y mae datrysiadau y tu allan i'r llys, gan gynnwys rhybuddion a datrysiadau cymunedol, yn cael eu defnyddio ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys. Mae'r panel yn dwyn cynrychiolwyr ynghyd o sefydliadau cyfiawnder troseddol fel y Llysoedd, yr heddlu, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, a Gwasanaeth Erlyn y Goron er mwyn adolygu achosion a rhoi adborth.

Yn ystod 2025–2026, adolygodd y panel 31 o achosion oedolion, a 30 o achosion ieuenctid, yn gynnwys themâu difrod troseddol a throseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus, achosion stelcio ac aflonyddu, troseddau cyffuriau, a throseddau siop-ladrad.

Cwynion

Mae fy swyddfa yn chwarae rhan bwysig yn y broses o oruchwylio proses gwyno yr heddlu, a gynhelir drwy'r Bwrdd Sicrwydd Safonau Proffesiynol bob chwarter. Mae hyn yn helpu i sicrhau tegwch, tryloywder a ffydd y cyhoedd yn y ffordd y caiff pryderon ynghylch plismona eu trin.

Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, mae gennyf dri chyfrifoldeb allweddol mewn perthynas â chwynion:

1. Gweithredu fel yr awdurdod priodol ar gyfer cwynion a wneir yn erbyn y Prif Gwnstabl
2. Dal y Prif Gwnstabl i gyfrif am effeithiolrwydd cyffredinol proses gwyno yr heddlu
3. Corff adolygu perthnasol ar gyfer rhai cwynion am yr heddlu

Mae adroddiad blynyddol ar berfformiad a chyfrifoldeb cwynion ar gael ar ein gwefan.

Hapsamplu cwynion

Bob mis, mae tîm Sicrwydd SCHTh yn dewis ac yn ystyried pum achos cwyn ar hap, sy'n cael eu trin y tu allan i Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu.

Mae Atodlen 3 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 yn nodi'r gweithdrefnau a'r pwerau ar gyfer ymdrin â chwynion, materion ymddygiad, a gweithdrefnau disgyblu sy'n ymwneud â swyddogion a staff yr heddlu.

Ystyriwyd ei bod yn briodol ystyried cwynion sy'n cael eu trin y tu allan i Atodlen 3 gan nad oes hawl gan gwynion o'r fath gael adolygiad cwyn ar ôl iddynt gael eu cwblhau gan eu bod yn cael eu trin yn anffurfiol gyda'r nod o adfer y gŵyn heb fod angen iddi gael ei huwchgyfeirio i ystyriaeth ffurfiol.

Darganfod mwy:



Y Cyd-bwyllgor Archwilio

Mae'r Cyd-bwyllgor Archwilio yn rhoi sicrwydd annibynnol ar drefniadau llywodraethu, rheoli risg, a rheolaeth fewnol fy swyddfa a Heddlu Dyfed-Powys. Yn cynnwys aelodau allanol sydd ag arbenigedd mewn cyllid, archwilio a llywodraethu, cyfarfu'r Cyd-bwyllgor Archwilio bum gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf er mwyn adolygu canfyddiadau archwilio mewnol ac allanol, monitro rheolaeth ariannol, a chynghori ar faterion fel risg a thryloywder. Mae'r cyd-bwyllgor hefyd yn craffu ar drefniadau llywodraethu er mwyn cefnogi goruchwyliaeth ac atebolrwydd cadarn.

Goruchwylio'r Gofyniad Plismona Strategol

Mae'r Gofyniad Plismona Strategol (GPS) yn nodi'r bygythiadau hynny. Ym marn yr Ysgrifennydd Cartref, y rheiny yw'r bygythiad mwyaf i ddiogelwch y cyhoedd, a rhaid i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu roi sylw dyledus iddynt wrth gyhoeddi neu amrywio cynlluniau heddlu a throseddu. Mae'n fy nghynorthwyo i, yn ogystal â'r Prif Gwnstabl, i gynllunio, paratoi ac ymateb i'r bygythiadau hyn drwy gysylltu'r ymateb lleol yn glir â'r bygythiadau cenedlaethol, gan amlygu'r galluoedd a'r partneriaethau y mae eu hangen ar blismona, er mwyn sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau cenedlaethol.

Bu fy swyddfa yn ystyried y GPS wrth ddatblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae'r Prif Gwnstabl yn gyfrifol am roi sylw dyladwy i'r Cynllun Heddlu a Throseddu a'r GPS wrth arfer ei swyddogaethau, ac rwy'n dal y Prif Gwnstabl yn gyfrifol am wneud hynny drwy ein fframwaith llywodraethu. Mae cynrychiolydd o'm swyddfa yn mynd i gyfarfodydd grŵp GPS Heddlu Dyfed-Powys bob chwarter, sy'n darparu goruchwyliaeth strategol o'r galluoedd cyfunol disgwyledig. Adroddir ar bob maes bygythiad, gan fanylu ar y gallu a'r capasiti presennol, ac unrhyw risgiau y mae angen eu huwchgyfeirio. Rwy'n cael adborth yn uniongyrchol o'r presenoldeb hwn, ac rwy'n dilyn unrhyw faterion gofynnol trwy gyfarfodydd fy mwrdd plismona.

Darganfod mwy:



Mae GPS 2023 yn nodi saith bygythiad cenedlaethol a nodwyd:

Isod, rwy'n amlinellu'r bygythiadau allweddol a rhai o'r amrywiol weithgareddau/ymatebion sefydledig y mae Heddlu Dyfed-Powys, fy swyddfa a minnau wedi'u cynnal eleni mewn perthynas â'r GPS. Mae rhai agweddau fel Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) wedi'u manylu yn yr adroddiad ehangach.

Bygythiad: Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Gweler Uchod

Bygythiad: Terfysgaeth

- Uned gwrthderfysgaeth Cymru (WECTU), Cangen Arbennig leol.
- Mae'r SCHTh yn derbyn data lleol perthnasol trwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSPs).

Bygythiad: Troseddau Difrifol a Threfnedig

- Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, Uned Troseddau Trefnedig Ranbarthol (TARIAN).
- Mae ymatebion partneriaeth leol yn cael eu cydlynu gan CSPs. Rwy'n cyfarfod yn chwarterol â rheolwyr CSP lle gellir codi unrhyw bryderon.
- Strategaeth Dyletswydd Trais Difrifol, sydd â chysylltiadau â Throseddau Difrifol a Threfnedig.
- Mewnwelediadau gan adroddiad HMICFRS: Gwellar ymateb i droseddau mewnffudo cyfundrefnol.

Bygythiad: Digwyddiad Seiber Cenedlaethol

- Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, Uned Seiberdroseddu Ranbarthol (yn yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol), uned seiberdroseddu Heddlu Dyfed-Powys.

Bygythiad: Cam-drin Plant yn Rhywiol

- Adolygiad proffil problemau blynyddol Heddlu Dyfed-Powys, grŵp cyflawni thematig rhanbarthol (yn yr Uned Troseddau Cyfundrefnol Ranbarthol), Strategaeth Diogelu Pobl gyda ffocws penodol ar gam-drin, camfanteisio ac amddiffyn plant yn rhywiol.
- Rheolir pryderon diogelu yng nghyd-destun partneriaeth trwy'r Bwrdd Diogelu, y mae'r SCHTh yn aelod gweithredol ohono.
- Holais am ddiweddariad gan Heddlu Dyfed-Powys trwy'r Bwrdd Plismona gyda'r Prif Gwnstabl, am ganfyddiadau o'r arolygiad amddiffyn plant ar y cyd o gam-drin ac esgeulustod yn Sir Benfro.

Bygythiad: Anhrefn Cyhoeddus

- Comanderiaid efydd, arian, aur wedi'u hyfforddi'n briodol, plismona ymateb cyffredinol ac Uned Cŵn. Gweler hefyd argyfyngau sifil isod.
- Ystyrir cydlyniant cymunedol ac anhrefn sifil mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol.
- Gwahoddir fy Mhrif Weithredwr i fynychu cyfarfodydd Aur yn ôl yr angen yn ystod anhrefn sifil.
- Mewnwelediadau o Arolygiad HMICFRS o ymateb yr heddlu i'r anhrefn cyhoeddus ym mis Gorffennaf ac Awst 2024: Tranche 2.

Bygythiad: Argyfyngau Sifil

- Plismona ymateb cyffredinol, adran Plismona Ffyrdd a Gweithrediadau Arbenigol, Adran Cynllunio Argyfwng a Gweithredol.
- Derbynnir ymateb partneriaeth drwy'r Fforwm Cydnerthedd Lleol, dan gadeiryddiaeth Heddlu Dyfed-Powys.

Ar y cyfan, mae gennyf sicrwydd da bod gan y Prif Swyddogion oruchwyliaeth briodol o'r capasiti a'r galluoedd sydd ar waith i fynd i'r afael â'r bygythiadau GPS hyn a chymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw risgiau wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Adnoddau

Praesept plismona


Ym mis Ionawr 2026, ar ôl proses o graffu helaeth, cefnogodd Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn unfrydol fy nghynnig praesept ar gyfer 2026–27, a gynyddodd yr eiddo band D cyfartalog o 7.47%, sydd tua £2.25 y mis. Mae'r ymgynghoriad yn rhan bwysig o'r broses o bennu cyllideb, ac fe helpodd i lywio fy mhenderfyniadau ynghylch blaenoriaethau ariannu, gan gynnwys buddsoddi mewn plismona cymunedol, atal troseddau, gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr, a mentrau diogelwch y gymuned ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r tabl canlynol yn nodi sefyllfa alldro gadarnhaol ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2025–26, gan roi Heddlu Dyfed-Powys mewn sefyllfa gryfach a mwy cadarn i ymdrin ag unrhyw nifer o heriau ariannol yn y dyfodol, sydd wedi eu nodi'n gynhwysfawr yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolog:

Cyllideb referiw	2025/26 Diwygiwyd £m	2026/27 £m
Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu	1,628	1,701
Gwasanaethau a Gomisiynir	1,662	1,767
Costau Net SCHTh	3,289	3,468
Cyflogau a Phensiynau Swyddogion a Staff yr Heddlu	144,751	151,548
Treuliau Rhedeg Eraill	26,156	26,984
Gwasanaethau Asiantaethau a Gwasanaethau ar Gontract	5,351	5,650
Costau Ariannu Cyfalaf	4,468	6,017
Cyfanswm Gwariant Gros yr Heddlu	180,726	190,199
Incwm	-10,858	-11,090
Grantiau Eraill	-14,910	-16,169
Cyfraniad net o Gronfeydd Wrth Gefn	-1,938	-1,318
Gofyniad Cyllideb	156,310	165,089
Grant yr Heddlu (Swyddfa Gartref)	-61,845	-64,033
Ardrethi Annomestig a Aildosbarthwyd (Llywodraeth Cymru)	-191	-184
Grant Cynnal Refeniw (Llywodraeth Cymru)	-7,908	-7,838
Praesept Treth Gyngor	-86,366	-93,033
Cyfanswm yr Arian	-156,310	-165,089
Cyllideb Gwariant Cyfalaf	17.56	25.35
Amcangyfrif o gronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol	-17.67	-11.668

Gwariant comisiynu 2025–26

Mae'r siart isod yn rhoi crynodeb o wariant comisiynu yn ôl ardal:



Tudalen 35

Llywodraethu

Panel Heddlu a Throseddu

Mae'r Panel Heddlu a Throseddu yn chwarae rhan bwysig wrth fy nal i gyfrif fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gan sicrhau fy mod yn cyflawni fy nghyfrifoldebau statudol yn effeithiol. Mae'r panel yn cynnwys cynghorwyr etholedig o'r pedwar awdurdod lleol o fewn yr ardal blismona, ochr yn ochr ag aelodau annibynnol sy'n dod ag arbenigedd a safbwynt ychwanegol. Mae'r panel yn chwarae rhan bwysig wrth graffu ar fy mhenderfyniadau, fy nal i gyfrif am berfformiad, a sicrhau tryloywder yn y ffordd y mae gwasanaethau plismona yn cael eu darparu. Er fy mod i'n gyfrifol am osod y praesept plismona a phenodi'r Prif Gwnstabl, mae gan y panel y pŵer statudol i adolygu'r penderfyniadau hyn, ac mewn amgylchiadau eithriadol, i'w rhoi yn eu lle. Yn 2025–2026, cyfarfu'r panel chwe gwaith, gyda thrafodaethau yn cwmpasu amrywiaeth o bynciau, yn cynnwys cyllid yr heddlu, perfformiad, a blaenoriaethau lleol. Mae ein perthynas yn parhau i fod yn adeiladol a chydweithredol, gan gefnogi atebolrwydd democrataidd cryf ar draws y rhanbarth.

Y Bwrdd Plismona

Mae'r Bwrdd Plismona yn parhau i fod yn un o'm prif fecanweithiau ar gyfer dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am redeg Heddlu Dyfed-Powys yn effeithlon ac yn effeithiol. Dros gyfnod 2025–2026, cynhaliwyd naw cyfarfod o'r Bwrdd Plismona, gan gynnig fforwm rheolaidd a strwythuredig i adolygu perfformiad, trafod heriau allweddol, a chraffu ar gyflawniad yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu. Mae uwch-swyddogion a staff fy swyddfa yn mynd i'r cyfarfodydd hyn. Cyhoeddir cofnod cyhoeddus o'r trafodion ar-lein i hyrwyddo tryloywder. Drwy'r fforwm hwn, rwy'n parhau i fonitro cynnydd, herio'n adeiladol, a chefnogi gwelliannau mewn plismona ar ran ein cymunedau.



Rhagolygon ar gyfer 2026–2027

Wrth i ni symud ymlaen drwy gydol y flwyddyn, rwy'n parhau i fod wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau gwasanaeth effeithlon ac effeithiol i'r cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i gyflawni Cynllun Heddlu a Throseddu 2025–2029, gyda ffocws ar gynorthwyo dioddefwyr, ymyrryd yn gynnar, a gwella ymddiriedaeth a ffydd mewn plismona lleol.

Er mwyn cynorthwyo hyn, rwyf wedi gosod cyllideb plismona o £165.089 miliwn, wedi ei chefnogi gan gynnydd o 7.47% yn y praesept, sy'n cyfateb i £2.25 yn fwy y mis i'r aelwyd Band D gyffredin. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i gynnal niferoedd swyddogion, cryfhau plismona cymunedol, a chyflawni gwelliannau mewn meysydd fel troseddau gwledig, diogelwch ar y ffyrdd a diogelu.

Edrych ymlaen

Papur Gwyn

Yn ystod 2025-26 cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynigion ar gyfer diwygio plismona ledled Cymru a Lloegr. Er ein bod yn dal i aros am fanylion pellach, mae fy swyddfa a minnau wedi parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu a chefnogi cymunedau a byddwn yn parhau i wneud hynny. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth a diweddariadau ar ein tudalen we bwrpasol ar ddiwygio plismona:



Prif Gwnstabl newydd Heddlu Dyfed-Powys

Yn ystod 2025, goruchwylais y broses recriwtio a phenodi ar gyfer rôl Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys. Yn dilyn proses ddethol gadarn, penodwyd Mr Ifan Charles a'i gymeradwyo'n ffurfiol yn dilyn gwrandawriad cadarnhau gan y Panel Heddlu a Throseddu. Ymunodd Mr Ifan Charles â Heddlu Dyfed-Powys yn 2004. Yn ystod ei yrfa, mae wedi dal amrywiaeth o rolau ar draws yr Adran Ymchwilio i Droseddau a phlismona mewn lifrai ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys, gan symud ymlaen i wahanol rengoedd. Mae'r rolau hyn wedi ei weld yn arwain digwyddiadau ag arfau tanio a throseddau difrifol, lle bu cynorthwyo a gweithio gyda dioddefwyr yn ganolog i'w ymagwedd.

